# Cynnwys

Cynnwys
Rhaglen ..... 2
Cofnodion y cyfarfod diwethaf ..... 6
Eitem 5 - Adroddiad Rhiantu Corfforaethol ..... 16
Eitem 6 - Adroddiad Adolygiad Digonedd Canolfannau Hamdden ..... 25
    Atodiad 1 - Crynodeb o adroddiad yr Ymgynghorwyr Hamdden ..... 27
Eitem 7 - Adroddiad ar Weithrediad a Gwariant Cynlluniau Grant Addasiadau i'r Anabl ..... 39

**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

# PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU

# SERVICES SCRUTINY COMMITTEE

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**10.00 a.m. DYDD IAU, 28 TACHWEDD 2013**

**10.00 a.m. THURSDAY, 28 NOVEMBER 2013**

Lleoliad / Location

**SIAMBR HYWEL DDA**

**SWYDDFEYDD Y CYNGOR**

**CAERNARFON**

*** NODWCH Y LLEOLIAD, O.G.Y.DD. / PLEASE NOTE THE VENUE ***

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**GLYNDA O'BRIEN**

**01341 424 301**

**: GlyndaOBrien@gwynedd.gov.uk**

Dosbarthwyd: 20.11.13

## PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU
## SERVICES SCRUTINY COMMITTEE

**AELODAETH / MEMBERSHIP (18)**

### Plaid Cymru (9)

Y Cynghorwyr / Councillors

Huw Edwards
Alan Jones Evans
Chris Hughes
Elin W. Jones
Linda Ann Wyn Jones
Liz Saville Roberts
Dyfrig Siencyn
Ann Williams
Hefin Williams

### Annibynnol / Independent (4)

Y Cynghorwyr / Councillors

Eryl Jones-Williams
Beth Lawton
Dewi Owen
Eirwyn Williams

### Llais Gwynedd (4)

Alwyn Gruffydd
Llywarch Bowen Jones
Peter Read
Dilwyn Lloyd

### Llafur / Labour (1)

Y Cynghorydd / Councillor Sion Wyn Jones

### Aelodau Ex-officio / Ex-officio Members

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor / Chairman and Vice-Chairman of the Council – Y Cynghorwyr / Councillors Huw Edwards a / and Dewi Owen

**AELODAU CYFETHOLEDIG / CO-OPTED MEMBERS:**

Hefo pleidlais ar faterion addysg yn unig /
With a vote on education matters only

Y Parchedig / Reverend Robert Townsend
Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales

Mrs Rita Price
Yr Eglwys Gatholig / The Catholic Church

Mr Dylan Davies
Cynrychiolydd Rhieni Llywodraethwyr Meirionnydd / Representative for Meirionnydd Parent Governors

(Disgwyl am enwebiad / Awaiting Nomination)
Cynrychiolydd Rhieni Llywodraethwyr Arfon / Representative for Arfon Parent Governors

Ms Rhian Roberts
Cynrychiolydd Rhieni Llywodraethwyr Dwyfor / Representative for Dwyfor Parent Governors

**R H A G L E N**

1. **YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. **MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. **COFNODION**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 3 Hydref 2013.

(Copi'n amgaeedig – papur **gwyn)**

5. **RHIANTU CORFFORAETHOL**
***Aelod Cabinet: Y Cyng. Sian Gwenllian*** — 10.00 am – 11.00 am

I ystyried adroddiad yr Aelod Cabinet Addysg ar yr uchod.

(Copi'n amgaeedig – papur **melyn**)

6. **ADOLYGIAD DIGONEDD CANOLFANNAU HAMDDEN** — 11.00 am – 12.00
***Aelod Cabinet: Y Cyng. Paul Thomas***

I ystyried adroddiad yr Aelod Cabinet Gwynedd Iach yn cynnwys crynodeb gweithredol o adroddiad yr ymgynghorwyr.

(Copi'n amgaeedig – papur **glas)**

7. **GWEITHREDIAD A GWARIANT CYNLLUNIAU GRANT ADDASIADAU I BOBL AG ANABLEDDAU**
***Aelod Cabinet: Y Cyng. John Wyn Williams*** — 12.00 – 1.00 pm

I ystyried adroddiad yr Aelod Cabinet Gofal ar yr uchod.

(Copi'n amgaeedig – papur **gwyn)**

# PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU 03.10.13

**Yn bresennol**: **Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn – Cadeirydd**
**Y Cynghorydd Peter Read – Is-gadeirydd**

Y Cynghorwyr: Alan Jones Evans, Linda Ann Wyn Jones, Beth Lawton, Dewi Owen, Liz Saville Roberts, Ann Williams, Eirwyn Williams, a Hefin Williams.

**Eraill a wahoddwyd:** Y Cyng. Siân Gwenllian (Aelod Cabinet Addysg), Y Cyng. R H Wyn Williams (Aelod Cabinet Gofal)

**Aelodau Cyfetholedig hefo pleidlais dros faterion addysg:** Mrs Rita Price (Yr Eglwys Gatholig), Parchedig Ganon Robert Townsend (Yr Eglwys yng Nghymru)

**Hefyd yn Bresennol:** Marian Parry Hughes (Uwch Reolwr Gwasanaethau Plant), Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol) a Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu), Dewi R Jones (Pennaeth Addysg), Orina Pritchard (Uwch Reolwr Trawsnewid Gwasanaeth).

**Sylwedydd:** Y Cynghorydd Ioan Thomas (Aelod Cabinet Gofal Cwsmer), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Alwyn Gruffydd, Elin Walker Jones, Eryl Jones-Williams, Llywarch Bowen Jones, Mr Dylan Davies (Cynrychiolydd Rhieni Llywodraethwyr Meirionnydd), Mrs Rhian Roberts (Cynrychiolydd Rhieni Llywodraethwyr Dwyfor) a Siôn Amlyn (Undeb Athrawon).

## 1. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

(a) Estynnodd y Cadeirydd groeso i Mrs Rita Price i'r cyfarfod sy'n cynrychioli'r Eglwys Gatholig ar y Pwyllgor hwn.

(b) Dymunwyd adferiad llwyr a buan i'r Cynghorydd Alwyn Gruffydd.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 3. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 20 Mehefin 2013 fel rhai cywir.

**4. YMCHWILIAD CRAFFU – ANSAWDD ADDYSG**

Cyflwynwyd adroddiad yr Ymchwiliad Craffu ar Ansawdd Addysg a gomisiynwyd gan yr Aelod Cabinet Addysg i edrych ar y materion canlynol:

- Pam bod pegynnu yn digwydd ym mherfformiad CA4 ysgolion
- Safonau cyflawniad mewn Mathemateg ac effaith hynny ar y dangosydd TL2+
- Pam bod ansawdd safonau a darpariaeth CA3 yn gyffredinol gadarn ar draws ysgolion yr awdurdod
- Meithrin dealltwriaeth lawnach o berfformiad dysgwyr PYD a'r graddau y mae cyflawniad y grŵp yma o ddysgwyr yn effeithio ar berfformiad CA4
- Effaith arweinyddiaeth ar berfformiad ysgolion a'r modd y caiff sgiliau arwain eu meithrin a'u datblygu

**(a)** Gosododd Cadeirydd yr Ymchwiliad, y Cynghorydd Liz Saville Roberts, y cyd-destun drwy yn gyntaf ddiolch i'w chyd-aelodau a'r Parchedig Robert Townsend ynghyd â'r swyddogion am eu gwaith clodwiw. Nodwyd bod prif ganfyddiadau'r ymchwiliad wedi ehangu tu hwnt i'r briff uchod. Pwysleisiwyd bod modd i'r Aelodau gyfrannu at yr argymhellion cyn cyflwyno adroddiad terfynol i'r Aelod Cabinet Addysg ar gyfer gweithredu.

Eglurwyd trefn yr Ymchwiliad gan nodi y cynhaliwyd cyfweliadau gyda:

- Penaethiaid chwe ysgol benodol o'r Sir
- Rhieni/llywodraethwyr y chwe ysgol
- Disgyblion

Dewiswyd y chwe ysgol ar sail perfformio'n dda, tanberfformio a lle mae newid sylweddol yn y perfformiad wedi digwydd.

Yn ogystal, derbyniwyd cyflwyniadau gan arbenigwyr allanol a oedd yn hynod ddiddorol, ysbrydoledig a chofiadwy. O ran argraff yr ymchwiliad yn deillio o'r cyfweliadau a'r cyflwyniadau nodwyd pwysigrwydd bod ysbrydoli, ysgogi a dal i gyfrif yn rhan allweddol o safbwynt ansawdd arweinyddiaeth a chanlyniadau da.

Teimlai sawl Aelod o'r Ymchwiliad Craffu bod tueddiad i Wynedd yn y gorffennol fod yn fewnblyg a'i bod yn bwysig i edrych ar arferion da tu allan i'r Sir.

Tywyswyd yr Aelodau drwy argymhellion yr Ymchwiliad yn seiliedig ar y canfyddiadau isod:

(a) Arweinyddiaeth o fewn Ysgolion
(b) Safonau cyflawniad Mathemateg
(c) Deall Perfformiad a Data
(d) Codi a Chyfleu Disgwyliadau
(e) Pegynnu o ran Ansawdd
(f) Rôl yr Awdurdod
(g) Rôl Llywodraethwyr
(h) Cyswllt gyda Disgyblion

**(b)** Rhoddwyd cyfle i'r Aelodau graffu'r casgliadau ac fe amlygwyd y pwyntiau canlynol:

(i) cwestiynwyd a yw'r cymhwyster CPCP ar gyfer Penaethiaid yn paratoi unigolion ar gyfer yr holl ystod o gyfrifoldebau sydd ynghlwm i waith Pennaeth.

Mewn ymateb i'r uchod, esboniodd y Pennaeth Addysg bod 100 unigolyn yn cael eu derbyn i wneud y cymhwyster yn flynyddol ac sydd yn cynnwys rhaglen fanwl iawn sy'n gofyn am gyfres o brofiadau.

(ii) Bod angen cryfhau elfennau yn yr ysgolion cynradd megis tracio cynnydd mewn Mathemateg. Tynnwyd sylw bod un o'r arbenigwyr a roddodd gyflwyniad i'r Ymchwiliad wedi nodi dwy enghraifft o ragoriaeth mewn codi safonau Mathemateg o fewn y Sir gan nodi ymhellach y ceir enghreifftiau llwyddiannus o arferion da mewn ardaloedd tlawd tu allan i'r Sir i godi safonau Mathemateg
(iii) Pryder bod rhai athrawon yn gorfod dysgu pwnc nad ydynt wedi cymhwyso ynddo yn creu problem yn enwedig i ysgolion bach
(iv) Bod perygl i ganolbwyntio a chamddefnyddio data ar gyfer un pwrpas ac a fydd yn arwain at golli'r elfen ddynol
(v) pwysigrwydd i ffocysu ar y dyfodol yn hytrach nag edrych yn ôl ond defnyddio'r hyn a ddysgir o'r gorffennol i adeiladu ar welliant parhaus
(vi) dylid codi'r uchelgais i gynyddu'r targed perfformiad i 100% yn hytrach na bodloni ar 65%
(vii) yng nghyd-destun data a pherfformiad, gofynnwyd i ba raddau y rhoddir ystyriaeth i ffactorau megis dysgu Cymraeg a Saesneg fel iaith ychwanegol yn enwedig o ystyried y cymhlethdodau achosir i'r disgyblion hynny sydd ddim yn siarad Cymraeg na Saesneg yn y cartref. Teimlwyd y dylid rhoi cydnabyddiaeth deilwng i'r ffactor hwn er budd cynnydd i'r disgybl.
(viii) dylid ceisio ysbrydoli rhieni ynghylch addysg eu plant
(ix) gwelwyd sawl rhwystredigaeth yn rôl llywodraethwyr yn benodol gormod o gyfrifoldeb arnynt
(x) dylid ehangu rôl llywodraethwyr yr awdurdod yn sgil derbyn cwyn gan un corff llywodraethol nad oedd Aelodau'r Cyngor yn aelodau o'r corff llywodraethol a'u bod yn gweld hyn yn bwynt cyswllt pwysig rhwng yr ysgol a'r Gymuned
(xi) dylai llywodraethwyr fod yn fwy heriol i Benaethiaid a gwelwyd y byddai ambell i gorff llywodraethol yn croesawu cyfarfod heb y Pennaeth a staff yn bresennol
(xii) pwysigrwydd i addysgu llywodraethwyr i ddiwylliant o fod yn gyfaill beirniadol ac yn fwy heriol tra'n derbyn bod yn rhaid cynnig cefnogaeth hefyd.
(xiii) Nad yw hyfforddiant presennol yn cyfarch anghenion llywodraethwyr yn yr hyn sy'n ddisgwyliedig ohonynt ac fe werthfawrogir cyfarfodydd i rannu profiadau ymysg ei gilydd a gyda llywodraethwyr o siroedd eraill
(xiv) Dylai llywodraethwyr dderbyn mwy o gefnogaeth / hyfforddiant ar gamau medrusrwydd
(xv) Bod sylwadau a dderbyniwyd gan y disgyblion yn rhai gwerthfawr ac angen rhoi sylw penodol iddynt

**(c)** Gwerthfawroga'r Aelod Cabinet Addysg y gwaith trwyadl a wnaed gan yr Ymchwiliad Craffu a'r ffaith eu bod wedi ymestyn tu hwnt i'r briff. Roedd yr argymhellion a wnaed gan yr Ymchwiliad Craffu yn plethu'n gyfforddus iawn gyda'r Prosiect Codi Safonau sy'n un o brif flaenoriaeth y Cyngor. Yn ogystal cyfeiriwyd at adroddiad Robert Hill gan nodi y rhagwelir newid yn y byd addysg yn deillio o gynnwys yr adroddiad hwnnw. Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet Addysg y byddai'n ymateb yn ffurfiol i argymhellion yr Ymchwiliad Craffu.

**(ch)** Esboniodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu y byddai'r Ymchwiliad Craffu Ansawdd Addysg yn cwrdd unwaith eto i lunio adroddiad terfynol i gynnwys y sylwadau

wnaed uchod a'i gyflwyno i'r Aelod Cabinet am ymateb ffurfiol. Mewn ymateb i ymholiad Aelod ynglŷn â sefydlu Ymchwiliad Craffu sefydlog i fonitro cynnydd yn y maes hwn, esboniodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu bod yr ymchwiliadau, fel mater o drefn, yn weithgorau ar sail "tasg a gorffen" ond byddai modd trafod hyn ymhellach yng nghyfarfod paratoi nesaf y Pwyllgor Craffu hwn.

**Penderfynwyd: (a) Bod yr Ymchwiliad Craffu Ansawdd Addysg yn cynnal cyfarfod arall i lunio adroddiad terfynol gan gymryd i ystyriaeth y sylwadau wnaed uchod i'w gyflwyno i'r Aelod Cabinet Addysg.**

**(b) Gofyn i'r Aelod Cabinet Addysg ymateb yn ffurfiol i argymhellion yr Ymchwiliad ar ffurf cynllun gweithredu / rhaglen waith a chyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor craffu hwn ymhen oddeutu 6 mis yn nodi cynnydd yng ngweithrediad yr argymhellion.**

**(c) Trafod sut i fonitro cynnydd yn y maes uchod yng nghyfarfod paratoi nesaf y Pwyllgor Craffu hwn ar 22 Hydref 2013.**

## 5. CYNLLUN GWEITHREDU ÔL-AROLWG

Cyflwynwyd Cynllun Gweithredu Ôl-Arolwg y Gwasanaeth Addysg mewn ymateb i adroddiad ESTYN ar ansawdd gwasanaethau addysg yr awdurdod i blant a phobl ifanc.

**(a)** Atgoffodd yr Aelod Cabinet Addysg bod ESTYN wedi ymweld â'r Gwasanaeth Addysg ym mis Mawrth eleni ac wedi dyfarnu'r awdurdod yng nghategori digonol o ran perfformiad cyfredol a rhagolygon gwella. O ganlyniad roedd yn ofynnol i'r Gwasanaeth Addysg lunio cynllun gweithredu ôl-arolwg i ymateb i argymhellion ESTYN. Nodwyd bod llawer o'r gwaith wedi digwydd dros yr haf a'r cynllun gweithredu wedi ei fabwysiadu bellach gan y Cabinet ac wedi ei gyflwyno i ESTYN ar 20 Medi 2013. Cyfeiriwyd at y 6 argymhelliad gan ESTYN sef:

1. Gwella diogelu trwy sicrhau bod gweithdrefnau a pholisïau'r Cyngor yn cael eu deall yn glir gan bawb sy'n gweithio i'r awdurdod ac yn cael eu diweddaru a'u lledaenu'n rheolaidd
2. Codi safonau yng nghyfnod allweddol 4 trwy dargedu adrannau sy'n tanberfformio mewn ysgolion uwchradd sy'n perfformio'n wael yn fwy cadarn
3. Monitro a herio pob ysgol a defnyddio'r holl bwerau sydd ar gael i'r awdurdod i wella arweinyddiaeth a rheolaeth mewn ysgolion sy'n tanberfformio
4. Parhau i ddatblygu a gweithredu strategaethau presennol yr awdurdod i wella presenoldeb mewn ysgolion uwchradd
5. Gwella ansawdd hunan arfarnu, a'r modd y caiff cynlluniau gwella a gweithdrefnau rheoli perfformiad eu rhoi ar waith yn yr adran addysg
6. Parhau i roi cynlluniau ar waith i leihau nifer y lleoedd gwag

**(b)** Rhoddwyd cyfle i'r Aelodau wneud sylwadau ac fe amlygwyd y pwyntiau canlynol:

(i) Pryder ynglŷn â'r canrannau heriol yn argymhelliad 6 i leihau llefydd gweigion o gofio bod angen rhoi ystyriaeth i ddarn helaeth o Wynedd a hynny mewn cyfnod o ddwy flynedd

Mewn ymateb, esboniodd yr Aelod Cabinet Addysg bod Llywodraeth Cymru yn rhoi pwyslais enfawr ar gael gwared â llefydd gweigion a'r Cyngor hwn wedi bod yn herio ei safbwynt gan nodi mai gwella ansawdd addysg yw'r flaenoriaeth. Rhoddir targed o 10% i bob awdurdod gan Lywodraeth Cymru ac fe heriwyd hyn gan dderbyn rhyw fath o gyfaddawd na fedr ardal wledig fel Gwynedd byth gyrraedd y targed ac fe welir o fewn deilliannau'r Gwasanaeth Addysg ffigwr mwy realistig. Cytunodd y Cabinet ar gynllun blaenoriaeth sydd yn cynnwys yr ad-drefnu presennol a'r gwaith sy'n mynd rhagddo yn nalgylch y Gader, y Berwyn ac yn Arfon. Yn ogystal, bu'r Gwasanaeth yn ymgymryd â gwaith hollol dechnegol ynghylch cyfrifo llefydd gweigion mewn ysgolion ac wrth ail-ddiffinio gofod o fewn ysgolion gwelwyd lleihad yn y ganran o lefydd gweigion.

(ii) bod rhai o'r deilliannau yn uchelgeisiol ar gyflawniad ysgolion a gofynnwyd a ydynt yn gyraeddadwy.

Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Addysg ei bod yn ymddangos o ganlyniadau eleni ar y TL2+, sydd i'w cyhoeddi'n gyhoeddus maes o law, bod 4 allan o'r 5 ysgol lle'r oedd tangyflawni yn yr Adrannau wedi gwneud cynnydd da iawn yn seiliedig ar y gwaith sydd wedi digwydd ym maes Mathemateg.

(iii) tra'n derbyn y sylw uchod, nodwyd ymhellach y daeth yn amlwg trwy'r Ymchwiliad Craffu nad oedd canrannau canlyniadau yn adlewyrchu gwir ddarlun yr ysgol oherwydd yr holl wersi preifat sydd yn digwydd tu allan i ysgolion. Dylid dadansoddi'r sefyllfa i weld a yw'r gwelliant yn yr ysgolion yn cyfateb i'r ffigyrau o lwyddiant.

(iv) ymddengys bod gwendid ar gynnydd mewn sgiliau ysgrifennu o ganlyniad i'r oes dechnoleg fodern ac y dylid cadw golwg ar hyn.

Mewn ymateb, esboniodd y Pennaeth Addysg ers Medi eleni y dylai fframwaith llythrennedd a rhifedd gyfarch y pryder uchod, sydd yn ofyniad statudol ar bob sefydliad ac yn cael sylw teilwng yn yr ysgolion cynradd a'r uwchradd.

(v) gofynnwyd a yw perfformiad eleni yn cael eu hadlewyrchu yn y chwarteli cenedlaethol.

Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Addysg yr ymddengys bod y cynnydd yng Ngwynedd ar berfformiad TL2+ bron yn 58% eleni o'i gymharu â 55% llynedd ond yn rhy gynnar i wybod sut y caiff ei adlewyrchu yn y chwarteli. Pwysleiswyd y ceir y wybodaeth yma'n derfynol yn hwyrach yn y flwyddyn.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi cynnwys y Cynllun Gweithredu Ôl-arolwg.**

**6. CYFLWYNIAD – ADOLYGIAD "DECHRAU I DDIWEDD" PLANT**

**(a)** Derbyniwyd cyflwyniad, er gwybodaeth, gan yr Uwch Reolwr Gwasanaethau Plant ar yr adolygiad uchod pryd y nododd mai prif flaenoriaeth y Cyngor ydoedd sicrhau bod plant a phobl ifanc Gwynedd yn ddiogel, ac yn cael eu gwarchod pan fo angen. Yr ail flaenoriaeth amlwg wedi hyn yw sicrhau bod y Gwasanaeth yn cael ei ddarparu mewn modd a fydd yn rhoddi gwerth am arian.

Comisiynwyd yr adolygiad ar y Gwasanaeth Plant gan nad oedd y Gwasanaeth i weld yn cynnig gwerth am arian ac yn dilyn yr ymarfer gorau. O hynny roedd ansicrwydd yn codi os oedd y Gwasanaeth yn cynnig y canlyniadau gorau i ddefnyddwyr y gwasanaeth. Cytunwyd ar sgôp trwy sicrhau ystyriaeth lawn ar gyfer yr haenau isod wrth gynllunio ac argymell newidiadau:

Haen 1 – Plant (Gwasanaethau cyffredinol)
Haen 2 – Plant Bregus
Haen 3 – Plant mewn Angen (lle byddai peidio ymyrryd yn arwain at anfantais i'r teulu)
Haen 4 – Plant mewn Gofal neu angen diogelu (plant sydd ar gofrestr gydag anghenion cymhleth a dwys)

Prif negeseuon yr adolygiad o safbwynt gwerth am arian ydoedd bod lefel gwariant Gwynedd ar Wasanaethau Plant yn sylweddol uwch na'r "teulu" o Gynghorau tebyg a hynny ers nifer o flynyddoedd (£3.5m yn uwch yn 2012/13 a 2013/14) a'r prif yrwyr y costau ydoedd:

- Gofal preswyl (£2.2m yn 2012/13 i blant gydag anabledd dwys a chymhleth tu allan i'r Sir) a gofal maethu (£0.9m)
- Niferoedd y plant mewn gofal nid costau lleoliadau
- Diffyg opsiynau

Fel rhan o'r adolygiad, ac o ran lleoliadau, gwnaed dadansoddiad o bob un achos yn annibynnol o'r Gwasanaeth i weld os oedd y trothwy yn gywir a daethpwyd i gasgliad bod y penderfyniad yn gywir ymhob un o'r 22 achos. Fodd bynnag, pe byddai opsiynau eraill wedi bod ar gael pan wnaed y penderfyniad i roi plentyn mewn gofal preswyl all sirol dim ond 7 plentyn tybiwyd oedd wedi bod angen lleoliad all-sirol tymor tir. Roedd hyn oherwydd diffyg gwasanaeth arbenigol oedd ar gael yr adeg hynny megis darpariaeth amgen yn cynnwys lleoliadau maethu arbenigol, cefnogaeth arbenigol gan asiantaethau eraill, cefnogaeth gefnogol egwyl fer i deuluoedd, cefnogaeth gartref arbenigol a hefyd cynyddu niferoedd o rieni maeth oedd yn gallu ymdopi hefo gofal uwch yn unol ag anghenion y plant.

Nodwyd bod ffocws cenedlaethol yn canolbwyntio ar yr agweddau canlynol:

- Ymyrryd yn fuan pan fo'r plentyn yn ifanc
- Ymateb yn fuan i broblemau sydd yn codi
- Aml-asiantaethol

Gwelwyd esiamplau o ymarfer da ar draws y Deyrnas Unedig ac yn benodol model yn yr Alban a elwir yn "Streamlined Response" sydd yn ceisio lleihau problemau wrth symud cyfrifoldeb o un asiantaeth i'r llall wrth i anghenion gynyddu h.y. Tîm amlasiantaethol ar sail timau lleol gyda rhinwedd o fedru ymyrryd o'r dystiolaeth gyntaf o broblemau hyd at eu datrysiad.

Yn deillio o'r gwaith ymarfer da a'r gweithdai pellach gynhaliwyd hefo partneriaid, awgrymwyd rhoi ystyriaeth bellach i'r cynigion isod:

| | | |
|---|---|---|
| Cynnig 1 | - | Mynediad at Wasanaethau ar draws yr Haenau o angen (newidiadau o ran dyrannu grantiau wedi eithrio mynediad plant) |
| Cynnig 2 | - | Un "drws ffrynt" (sefydlu un drws aml disgyblaethol i'r holl wasanaethau lle mae cyfeiriadau yn cael eu hasesu ar y cyd ar y cam cyntaf) |
| Cynnig 3 | - | Tîm Aml-asiantaethol (arbrofi gyda thîm bychan i neud gwaith amlasiantaethol ar sail tîm "streamline response" a'i beilota mewn ardal benodol yn y lle cyntaf i'w werthuso cyn ei ymestyn ymhellach) |
| Cynnig 4 | - | Tîm Trothwy Gofal (ymchwil yn dangos i ffocysu ar ymyrraeth |

ddwys yn y 6 wythnos gyntaf i gael plentyn adref sy'n llwyddo'n well na gadael y plentyn mewn gofal )

Cynnig 5 - Rheoli Lleoliadau (gysylltiedig â'r uchod )

Cynnig 6 - Lleihau biwrocratiaeth ( lleihau'r gofyn sydd ar Weithwyr Cymdeithasol o ran cofnodi er mwyn rhyddhau amser iddynt dreulio hefo teuluoedd er mwyn gwneud gwaith o werth)

I gloi, amlinellodd yr Uwch Reolwr Gwasanaethau Plant y canlynol ar gyfer gweledigaeth i'r dyfodol:

1. Ymyrraeth a gofal cywir, ar yr adeg gywir, yn y lle cywir ac am y gost gywir.
2. Hyrwyddo ac annog gwaith proffesiynol da ac amserol gan weithio yn aml asiantaethol lle'n briodol.
3. Mewn cymunedau sy'n hyfyw a lle mae lles a photensial plant sy'n cael ei uchafu.

**(b)** Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y pwyntiau canlynol:

(i) bod beirniadaeth genedlaethol ar ddarpariaeth ofal all-sirol i blant oherwydd y cost a'r niferoedd a phryderwyd bod pellter oddi wrth y teulu yn medru dwysau problemau'r plant drwy eu dieithrio oddi wrth deuluoedd.

(ii) Bod gorwario ar leoliadau all-sirol wedi bod yn broblem yn y gorffennol ac oni ddylai'r awdurdod fod wedi sefydlu darpariaeth ei hun bellach i oresgyn y broblem amlinellwyd uchod.

(iii) gofynnwyd beth yw'r camau gweithredu yn dilyn yr adolygiad ac a yw'r Gwasanaeth wedi llunio cynllun gweithredu.

**(c)** Mewn ymateb i'r sylwadau uchod, esboniodd yr Uwch Reolwr Gwasanaethau Plant fel a ganlyn:

- bod pellter lleoliadau all-sirol yn bryder i'r Gwasanaeth er eu bod yn weddol agos o ran milltiroedd yn ardaloedd Wrecsam a Swydd Gaer roeddynt yn bell o ran diwylliant ag anghenion ieithyddol. Fodd bynnag, roedd cyfrifoldeb ar y Gwasanaeth i fod yn hyrwyddo cyswllt rhwng y plant a'r teuluoedd ac fe wneir popeth o fewn eu gallu i gael mynediad at gyfran o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Bod cynlluniau arloesol ar y gweill i sefydlu Canolfan Rhagoriaeth a fydd yn cynnwys addysg Hafod Lon ynghyd â chyfleusterau gofal ysbaid i blant anabl.
- O ran y weledigaeth, roedd gan y Gwasanaeth gynllun comisiynu ar gyfer Gwasanaeth Plant a'r flaenoriaeth ydoedd lleihau'r nifer o blant mewn gofal yn y 5 mlynedd nesaf.
- Anelir i wneud arbedion fesul blwyddyn drwy'r gwaith ataliol ond rhaid deall bod rhai plant a phobl ifanc angen gofal arbenigol sydd ddim ar gael yng Ngwynedd.
- Bod y Gwasanaeth wedi adnabod y blaenoriaethau sef:
    - Sefydlu Tîm Trothwy Gofal
    - Lleihau'r gofynion biwrocratiaeth
    - Gweithredu yn amlasiantaethol ar draws Haenau 2,3 a 4 ac uchafu mynediad i deuluoedd megis gwasanaethau rhiantu, a.y.b.

**Penderfynwyd:** **Derbyn, nodi a diolch am y cyflwyniad.**

## 7. ADOLYGIAD ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

**(a)** Derbyniwyd cyflwyniad fel gwybodaeth gefndirol i adroddiad yr Aelod Cabinet Addysg ynglŷn â'r adolygiad strategol Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad.

Cychwynnodd yr adolygiad uchod oddeutu 18 mis yn ôl yn deillio o anghysondebau yn y ddarpariaeth a dderbynia blant a phobl ifanc Gwynedd ar draws yr awdurdod. Cyhoeddwyd dogfen ymgynghorol gan Lywodraeth Cymru yn 2012 yn nodi'r datganiad isod a anogodd yr awdurdod i feddwl yn llawer ehangach er mwyn sicrhau partneriaeth effeithiol i ddarparu yn effeithiol ar gyfer plant:

"Prin yw'r cynnydd at sefydlu partneriaethau amlasiantaethol effeithiol i ddarparu ar gyfer plant a phobl ifanc mwyaf agored i niwed yn y rhan fwyaf o ardaloedd yng Nghymru".

Amlygodd y Llywodraeth y tri phwynt pwysig isod:

- Bod prosesau cyfathrebu a rhannu gwybodaeth yn wael
- Gwaith cynllunio a gwerthuso annatblygedig; ac
- Asesiadau amlasiantaethol a gwblheir yn aml gan asiantaethau ar wahân i'w gilydd

O ystyried yr uchod, edrychwyd ar y nôd yng Ngwynedd sef:

- Sicrhau gwasanaeth cyflawn i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd
- Cyd-berthnasu a chynlluniau integredig
- Sicrhau gwasanaethau o ansawdd a gwerth am arian
- Ymateb yn llawn i bolisïau cenedlaethol a lleol
- Ymateb i egwyddorion cytunedig: hyrwyddo annibyniaeth, mesur ansawdd, sicrhau cysondeb a hyrwyddo cyfleoedd cyfartal, uwch sgilio staff

Comisiynwyd cwmni CAPITA i edrych ar y maes ac fe ddaethpwyd i'r casgliadau isod gyda'r drefn gyfredol:

- Anghysondeb
- Traddodiadol a chymhleth
- Ansawdd tracio perfformiad
- Cydweithio
- Patrymau arferion gwahanol
- Twf mewn anghenion penodol
- Cyfathrebu
- Creu dibyniaeth

Mewn ymgynghoriad â'r budd-ddeiliaid y prif negeseuon ydoedd:

- 88.5% o'r farn nad yw gwneud dim yn opsiwn
- 100% o'r gweithwyr proffesiynol addysg o'r farn nad yw'r drefn bresennol yn gynaliadwy i'r dyfodol
- Bod rhwng 88.7% a 99% o rieni yn ffafrio newid ar gyfer gwella elfennau o'r gwasanaeth

- Bod 99% o rieni unigolion ac anawsterau / anableddau mwy dwys a chymhleth yn ffafrio symud i wasanaeth sy'n canolbwyntio ar y plentyn / person ifanc a'u teuluoedd gyda chefnogaeth amlasiantaethol integredig lawn
- 100% o'r holl randdeiliad yn croesawu rôl unigolyn fel person cyswllt uniongyrchol â theuluoedd i sicrhau:

  - Cyswllt uniongyrchol â rhieni i wella'r drefn gyfathrebu rhwng asiantaethau
  - Gweithrediad llawn ar gyfer cynnal adolygiadau aml-asiantaethl a gwireddu'r canlyniadau

Rhestrwyd elfennau ar gyfer canolbwyntio arnynt ynghyd â chefndir i'r opsiynau a drafodwyd ar gyfer ymateb i ofynion y dyfodol sef:

Opsiwn 1 - Dim Newid (a fyddai'n arwain at fethu gweithredu gofynion statudol ac yn methu cyflawni'r amcanion a'r nodau sydd wedi eu hadnabod)

Opsiwn 2 - Gwella Elfennau'r Gwasanaeth (fyddai'n cynnwys uwch sgilio staff a ffurfio tîm o gymhorthyddion dysgu i ddatblygu llwybrau gyrfa a'u lleoli o fewn yr ysgolion)

Opsiwn 3 - Newid Sylweddol (fyddai'n arwain at wasanaeth sydd yn canolbwyntio ar blentyn / unigolyn ifanc gyda chefnogaeth amlasiantaethol sef iechyd a gwasanaethau cymdeithasol)

Opsiwn 4 - Newid Radical

I gloi, nodwyd y ffafriwyd Opsiwn 2 gyda'r bwriad o symud i Opsiwn 3 fel gwedd 2. Pwysleisiwyd yr angen i gadw Opsiwn 2 a 3 ar wahân ar hyn o bryd oherwydd goblygiadau cyllidol ynghlwm i Opsiwn 3.

**(b)** Rhoddwyd cyfle i Aelodau ofyn cwestiynau ar gynnwys y cyflwyniad a'r adroddiad gerbron ac amlygwyd y pwyntiau canlynol:

(i) pryder ynglŷn â chyllido'r opsiynau ac y byddai gwasanaethau eraill yn dioddef
(ii) pryder ynglŷn â risg amlwg o recriwtio arbenigwyr yn y maes
(iii) gofynnwyd am wybodaeth ynglŷn ag amserlen ar gyfer gweithredu'r opsiynau ffafriol a sut y byddir yn monitro gwariant a mesur y cynllun gweithredu?
(iv) o ystyried bod cymorthyddion yn ganolog iawn i weithredu Opsiwn 2, a thrwy eu uwch sgilio a fydd yn realistig i ddisgwyl iddynt weithio ar y cyflogau presennol?
(v) drwy greu Timau Dalgylchol o Gymorthyddion, gofynnwyd faint yn llai o gymorthyddion fydd gan ysgolion a sut maent yn mynd i ymdopi â hyn?

Mewn ymateb i'r sylwadau uchod, nododd yr Uwch Reolwr Trawsnewid Gwasanaeth fel a ganlyn:

- Hyderir y gellir cyllido'r opsiynau drwy ddefnyddio'r adnoddau sy'n bodoli'n barod yn fwy effeithiol drwy ystyried anghenion y plant ac uwch sgilio'r cymhorthyddion i fedru ymdrin ag ystod o anghenion megis gwybyddiaeth dysgu, anhwylder iaith ac ymddygiad yn fwy effeithlon
- Y byddir yn cydweithio'n agos gyda Cholegau addysg bellach ar gyfer sicrhau bod unigolion arbenigol yn cael hyfforddiant priodol a pherthnasol
- O ran amserlen, roedd llawer o gerrig milltir i'w cyrraedd at y newid ond gobeithir gweithredu ar wedd 1 o Opsiwn 2 erbyn Medi 2015

- Cydweithir yn agos gydag Adran Adnoddau Dynol y Cyngor a phan fydd y cyfrifoldebau yn cael eu hadnabod a'u pennu yna fe fydd yn ofynnol arfarnu swyddi'r cymhorthyddion
- Anodd nodi ar hyn o bryd faint yn llai o gymorthyddion fyddai gan ysgolion oherwydd ochr yn ochr â hyn roedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi targed ar gyfer datganoli cyllid addysg allan i'r ysgolion ac efallai byddai'n rhaid ystyried sefydlu cytundebau lefel gwasanaeth rhwng yr awdurdod a'r ysgolion ar gyfer darpariaeth anghenion arbennig. Sicrhawyd y byddir yn cynnal trafodaethau gydag ysgolion yn hyn o beth ac maent yn ymwybodol o'r Opsiynau a ffafrir.

**Penderfynwyd: Derbyn, nodi a diolch am y cyflwyniad.**

## 8. YMCHWILIAD CRAFFU GOFAL

Adroddodd Cadeirydd yr Ymchwiliad, y Cynghorydd Peter Read, bod un cyfarfod o'r Ymchwiliad Craffu Gofal wedi ei gynnal gyda'r briff wedi ei gytuno i graffu pa mor dda yw'r gwasanaeth i gleifion wedi iddynt gael ei rhyddhau o'r ysbytai. Byddir yn ymgynghori gyda phartneriaid yn y maes ynghyd â chyfweld sampl o ddefnyddwyr y gwasanaeth.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 12.50 pm

**CADEIRYDD.**

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | **PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **28:11:2013** |
| **TEITL YR EITEM** | **PANEL RHIANT CORFFORAETHOL Y CYNGOR** |
| **AELOD CABINET** | **Y CYNGHORYDD SIAN GWENLLIAN** |
| | |

## 1.Cyflwyniad

**1.1** Penderfynwyd yng nghyfarfod paratoi'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau ar yr 21ain o Hydref bod angen craffu gwaith "Rhiantu Corfforaethol y Cyngor " a nodwyd nifer o gwestiynau o ddiddordeb i'r aelodau. Bwriad yr adroddiad yma, felly, yw ymateb i bob cwestiwn yn ei dro .

**1.2** Ar yr 8fed o Hydref cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol y Panel Rhiant Corfforaethol i'r Cabinet. Nodwyd yn y cyflwyniad i'r Adroddiad fod cyfrifoldeb statudol ar y Cyngor fel " rhiant corfforaethol " i blant sydd mewn gofal a bod disgwyliad ar bob Cyngor i ymddwyn fel pe bai'n rhiant i'r plant yma. Er bod cyfrifoldeb fel rhiant gan bob aelod etholedig ac aelod staff y Cyngor ( a disgrifir y cyfrifoldebau yma yn y ddogfen " Petai'n Blentyn i mi ...") mae rôl benodol i'r Panel Rhiant Corfforaethol mewn perthynas â sicrhau trosolwg o les a budd plant mewn gofal.

## 2. Nifer y plant mae'r Cyngor yn gweithredu fel rhiant corfforaethol iddynt a'r trefniadau ar gyfer ysgwyddo'r cyfrifoldeb yma.

**2.1** Yn adroddiad diweddaraf y Rheolwr Gwasanaeth ( Adnoddau ) i'r Panel Rhiant Corfforaethol nodir y gellir darparu gofal i blentyn neu berson ifanc mewn sawl math o leoliad. Nid yw natur y lleoliad yn newid na lleihau cyfrifoldeb y Cyngor fel rhiant corfforaethol. Gall y lleoliadau hyn gynnwys:-

- Lleoliad maeth
- Lleoliad gyda theulu estynedig neu ffrindiau ( o dan reoliadau maethu )
- Lleoliad preswyl
- Lleoliad gyda rhiant neu rieni o dan Orchymyn Gofal
- Llety annibynnol yn y gymuned ( i bobl ifanc dros 16 oed )

**2.2** Mae gan bob plentyn neu berson ifanc weithiwr cymdeithasol sydd â chyfrifoldeb i gadw mewn cysylltiad rheolaidd . Dylid nodi hefyd fod cyfrifoldeb tuag at bobl ifanc sydd wedi gadael gofal ac fe sicrheir fod y Gwasanaeth yn gwneud pob ymdrech i

barhau a'r gefnogaeth angenrheidiol os yw'r person ifanc yn dymuno hynny. Yn ychwanegol adolygir achosion plant mewn gofal yn unol â statud gan Swyddogion Adolygu Annibynnol. Cynhelir adolygiad cychwynnol o fewn mis i'r lleoliad, ail adolygiad o fewn 3 mis ac adolygiadau pellach bob 6 mis drwy'r cyfnod gofal. Mae hyn wedi bod yn her i'r gwasanaeth ond bellach mae'r perfformiad yn gwella. Adroddir yn gyson ar y perfformiad i'r Panel Rhiant Corfforaethol.

**2.3** Ar ddiwedd Medi 2013 roedd 191 o blant a phobl ifanc yng ngofal y Cyngor a'r Cyngor yn rhiant corfforaethol iddynt. Roedd hyn yn ostyngiad o 12 plentyn o'i gymharu â'r nifer ddiwedd Mawrth 2013. O'r cyfanswm roedd 152 ( sef 79 % ) mewn gofal maeth, 17 ( sef 9%) mewn lleoliad preswyl a 13 ( sef 7% ) wedi'u lleoli gyda rhieni. Roedd 7 o blant mewn lleoliadau mabwysiedig a 4 person ifanc yn byw yn annibynnol gyda chefnogaeth.

**2.4** Yn ystod y cyfnod Ebrill – Medi 2013 daeth 12 plentyn i ofal am y tro cyntaf (sy'n sylweddol llai na'r un cyfnod y llynedd). Roedd y mwyafrif yn blant ifanc llai na blwydd oed. Yn ystod yr un cyfnod gadawodd 25 plentyn neu berson ifanc ofal – cafodd 3 eu mabwysiadu, dychwelodd 5 at eu rhieni, trodd 10 person ifanc 18 oed ac mewn 4 achos gwnaethpwyd Gorchymyn Gwarcheidwaeth Arbennig.

**2.5** Yn adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth i'r Panel nodir hefyd fod

"......*gan y Gwasanaeth Plant strategaeth leoli ar waith gyda'r bwriad o gynyddu'r dewis o leoliadau sydd ar gael i blant. Mae ymateb i anghenion lles a diogelwch plant yn golygu nad yw'n bosibl lleoli plentyn mewn darpariaeth fewnol y Cyngor bob tro. Lle ceir plant ag anghenion dwys iawn fe fydd angen comisiynu lleoliadau arbenigol. Y math o anghenion sydd yn peri'r anawsterau mwyaf yw:-*

- *Lleoliadau i bobl ifanc yn eu harddegau – problemau ymddygiadol / troseddol*
- *Lleoliadau anghenion penodol -ymddygiad rhywiol anaddas , anghenion iechyd meddwl*
- *Lleoliadau i blant ag anabledd dwys*
- *Lleoliadau i grwpiau mawr o frodyr a chwiorydd*
- *Lleoliadau i riant a phlentyn. "*

**2.6** Cynhaliwyd adolygiad "Dechrau i'r Diwedd " ar y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd yn ddiweddar a nodwyd fod gwariant sylweddol ar leoliadau preswyl allsirol. Mae strategaeth fydd yn cynyddu'r dewis o leoliadau mewnol gyda gweithwyr a gofalwyr sydd â sgiliau arbenigol yn hanfodol os am leihau'r gwariant yma.

## 3. Sut mae trefniadau'r Cyngor yn cyd-fynd a rhestr Wirio Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gyfer rôl rhiant corfforaethol ?

**3.1 Hyfforddiant a Gwybodaeth i aelodau -** Yn dilyn sefydlu'r Panel diweddaraf ym mis Gorffennaf 2012 aed ati i drefnu hyfforddiant i aelodau yn Nhachwedd yr un flwyddyn. Gwahoddwyd pob aelod etholedig i'r hyfforddiant. Roedd yr hyfforddiant yn cynnwys gwybodaeth am rôl a chyfrifoldebau aelodau a gofynnwyd i aelodau ystyried a thrafod gwahanol sefyllfaoedd wynebir gan blant mewn gofal yng Ngwynedd. Mynychodd 24 aelod. Bwriedir cynnal hyfforddiant pellach yn ystod y flwyddyn sydd i ddod (Ionawr 8fed 2014 am 2:00 ym Mhorthmadog) ond bydd angen gweithio o flaen llaw i bwysleisio pwysigrwydd y rôl ac annog aelodau i fynychu. Mae'n sicr y bydd angen, hefyd, ystyried gwahanol ddulliau o godi ymwybyddiaeth am y maes.

**3.2 Datganiad y Cyngor am riantu corfforaethol -** Mae aelodau'r Panel Rhiant Corfforaethol wedi penderfynu y dylid llunio Strategaeth Riantu Corfforaethol fydd yn cynnwys datganiad clir ynglŷn â gweledigaeth y Cyngor. Mae'r gwaith wedi cychwyn a disgwylir, fel rhan o'r broses, y bydd ymgysylltu gyda phlant a phobl ifanc all gyfrannu oherwydd eu profiadau mewn gofal. Bydd disgwyl i bob Adran ymrwymo i'r amcanion a gynhwysir o fewn y Strategaeth.

**3.3 Hyfforddiant arbennig i aelodau all ddod i gysylltiad â phlant mewn gofal**
Ar wahân i'r hyfforddiant a drefnir yn flynyddol ar gyfer aelodau nid oes hyfforddiant pellach wedi'i gynnig i aelodau all ddod i gysylltiad á phlant mewn gofal. Gellid dadlau mai sgiliau cyfathrebu gyda phlant a phobl ifanc yn gyffredinol a dealltwriaeth o sefyllfa pob unigolyn sydd ei angen yn hytrach nag unrhyw sgiliau'n deillio o hyfforddiant arbennig. Er hyn, gellid ystyried hyfforddiant pellach pe bai aelodau'n dymuno hynny.

**3.4 Materion sydd o bryder i blant a phobl ifanc sydd mewn gofal**
Trwy drafodaethau gyda phlant a phobl ifanc mewn gofal ar sawl lefel (o drafodaethau unigol gyda gweithwyr cymdeithasol, i drafodaethau mewn cyfarfodydd adolygu, i hel barn gan yr Uned Gofal Cwsmer i'r sgyrsiau o fewn cyfarfodydd arbennig i blant mewn gofal megis Dweud eich Dweud ) credir y gellir fod yn gymharol hyderus fod y Panel yn ymwybodol o'r prif faterion sy'n achosi pryder i blant a phobl ifanc sydd mewn gofal. Trafodir isod, fodd bynnag, yr angen i gryfhau'r strwythurau a'r prosesau ymgysylltu gyda phlant a phobl ifanc gan roddi hyder iddynt a'u grymuso i gyfrannu mewn dull rhagweithiol a phendant. Bydd angen i hyn fod yn rhan ganolog o raglen waith y Panel dros y flwyddyn nesaf.

Isod mae rhai o'r materion fu'n achosi pryder i'r bobl ifanc y bu aelodau'r panel yn siarad â hwy :-

- Angen am fwy o wybodaeth am leoliad cyn cychwyn yno.

- Her newid ysgol ( yn arbennig os yw'n digwydd mwy nag unwaith )a'r effaith ar addysg.
- Yr angen am gefnogaeth mewn ysgolion i blant mewn gofal.
- Angen am weithiwr cymdeithasol sy'n gwrando, yn gallu ateb cwestiynau dyrys ac yn gwneud i bethau ddigwydd.
- Angen cefnogaeth Adrannau eraill y Cyngor ar wahân i'r gwasanaethau Cymdeithasol.
- Angen cydnabod mor allweddol ac anodd yw'r cyfnod 14 – 16 oed.
- Anhawster cael cymorth y tu allan i oriau swyddfa ar brydiau.
- Angen cydweithio mwy gyda'r colegau addysg ôl 16 er mwyn sicrhau nad oes gwahaniaethu yn digwydd.
- Angen sicrhau fod cymdeithasau tai, wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â dyrannu llety, yn ystyried cefndir a phrofiadau ac yn osgoi lleoli pobl ifanc mewn llety sydd yn achosi straen iddynt.
- Angen sicrhau cyfleon waith teg.

Dyma'r pryderon fydd yn llywio rhaglen waith y Panel Rhiant Corfforaethol.

**3.5 Trefniadau cychwyn trafodaeth a phlant mewn gofal ac ymateb i'w safbwyntiau -** Mae gan bob plentyn neu berson ifanc mewn gofal weithiwr cymdeithasol ac fe gaiff ei achos ei adolygu'n rheolaidd gan swyddog annibynnol. Mae'n ofynnol i'r gweithwyr yma weld y plentyn ar ei ben ei hun a sicrhau ei fod ef neu hi yn cael y cyfle i leisio barn a mynegi pryderon ynglŷn â'i sefyllfa. Dyma'r cam cyntaf o ran cychwyn ymgysylltu gyda phlant a phobl ifanc.

**3.5.1** Yn ychwanegol mae Uwch Reolwr y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd ac aelodau etholedig (aelodau'r Cabinet) ynghyd a'r swyddog gofal cwsmer Gwasanaethau Plant yn cyfarfod yn rheolaidd gyda grŵp o blant mewn gofal, ac sydd wedi gadael gofal, mewn grŵp a elwir yn 'Dweud eich Dweud' (Speakout). Mae'r grŵp yma yn bodoli ers 10 mlynedd yng Ngwynedd ac yn cyfarfod yn chwarterol tu allan i oriau gwaith arferol gyda nifer o bobl ifanc. Mae'r cyfarfodydd yn rhai sydd yn cael eu harwain gan y bobl ifanc eu hunain, gan osod yr agenda, eu cadeirio a'u cofnodi. Mae'r swyddogion a'r aelodau etholedig yno ar wahoddiad a'r prif bwrpas yw rhoi cyfle i bobl ifanc y mae gan y Cyngor gyfrifoldeb rhiant amdanynt i gael mynediad uniongyrchol at swyddogion ac aelodau sydd a'r gallu i ddylanwadu ar ymarfer a pholisi. Mae yn gyfle iddynt rannu eu profiadau am fod yn berson ifanc mewn gofal (neu ôl ofal ) ac yn rhoi cyfle i leisio barn am yr hyn y byddent yn dymuno ei weld yn newid er lles pobl ifanc eraill yn y dyfodol. Mae rhai o'r negeseuon a restrir uchod yn 3.4 yn ganlyniad i rai o'r trafodaethau yn y grŵp yma. Rhoddir adborth o'r cyfarfodydd hyn i'r Panel Rhiant Corfforaethol.

**3.5.2** Yn ychwanegol, bydd swyddog o'r Uned Gofal Cwsmer yn hel barn pobl ifanc mewn gofal yn rheolaidd ( drwy holiaduron, cyfarfodydd grŵp a chyfarfodydd unigol yn dibynnu ar yr hyn sydd orau gan y person ifanc ) ac yn adrodd ar ei chanfyddiadau i'r Panel.

**3.5.3** Sicrheir, hefyd, fod gan blant mewn gofal fynediad at eiriolwyr sy'n barod i lefaru ar eu rhan neu eu cynorthwyo i fynegi barn a syniadau mewn gwahanol sefyllfaoedd "ffurfiol". Mae gan Gyngor Gwynedd gytundeb lefel gwasanaeth ar y cyd a Chonwy a Môn gyda NYAS (National Youth Advocacy Service) i ddarparu'r eiriolaeth statudol yma.

**3.6 Mecanweithiau sicrhau fod y Cyngor yn ceisio barn plant a phobl ifanc mewn gofal a dathlu eu cyflawniadau -** Yn ychwanegol i'r uchod ac fel y nodir yn Adroddiad Blynyddol y Panel mae'r Panel yn gofyn am ,ac yn derbyn, mewnbwn uniongyrchol gan bobl ifanc mewn gofal o bryd i'w gilydd. Mae hyn wedi cynnwys mewnbwn" gonest a heriol" gan ddefnyddwyr gwasanaeth yn son am eu profiad hwy o fod mewn gofal.

**3.6.1** Cafwyd cyflwyniad hefyd gan ddau berson ifanc oedd wedi gadael gofal bellach.

**3.6.2** Bwriad y Panel yw parhau gyda mewnbwn rheolaidd o'r fath ond mae angen, hefyd, datblygu'r broses ymgysylltu ymhellach a sicrhau ei gyfannu i strwythurau a systemau'r Panel a'r Cyngor. Er mwyn gwneud hyn mae angen treulio cryn amser yn annog ac yn rhoi'r hyder i blant a phobl ifanc gymryd rhan. Mae angen penderfynu hefyd pwy fyddai'r gorau i arwain gwaith o'r fath gan y byddai angen elfen o annibyniaeth ynghyd a chapasiti i allu gweithio gyda'r plant dros gyfnod o amser. Heb wneud hyn mae perygl i'r holl broses fod yn docenistig.

**3.6.3** O ran dathlu cyflawniadau gwneir hyn mewn dull sy'n addas i'r plentyn neu berson ifanc - gall fod yn gerdyn neu lythyr o longyfarchiadau gan Gadeirydd y Panel neu'r Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Statudol neu'r Uwch Reolwr Gwasanaeth. Fe all hefyd dderbyn mwy o gyhoeddusrwydd ond byddai hyn ar gais / gyda chaniatâd y person ifanc a'i deulu ( lle'n addas ). Mae'n sicr fod angen datblygu'r agenda "dathlu llwyddiant" ymhellach gan ystyried...... pe bai'n blentyn i mi sut fyddwn i'n dathlu ? Barn pobl ifanc ar hyn o bryd yw nad ydynt am "achlysur " i ddathlu llwyddiant dim ond am eu bod yn blant mewn gofal gan y byddai hyn yn eu gwneud yn wahanol i'w cyfoedion.

**3.7 Achlysuron ( o leiaf unwaith y flwyddyn ) i blant mewn gofal gyfrannu at gyfarfodydd Cyngor Gwynedd-** Nid oes achlysuron penodol i blant mewn gofal gyfrannu at gyfarfodydd y Cyngor ( ar wahân i'w mewnbwn i'r Panel Rhiant Corfforaethol fel y gwelir uchod ). Mae'n anodd ystyried sut y gellid gweithredu hyn ar hyn o bryd heb i'r profiad fod yn un bygythiol iawn i'r plentyn neu'r person ifanc. Efallai mai'r gyfrinach yw datblygu'r agenda ymgysylltu fel y nodir uchod gan feithrin hyder pobl ifanc fel y gallant gyfrannu i gyfarfodydd ffurfiol yn y dyfodol. Mae hyn yn fater i'w drafod ymhellach er mwyn cytuno ar ffordd ymlaen.

**3.8 Cyfleoedd i glywed gan ofalwyr maeth a dathlu eu gwaith.** Ar ddiwedd Mawrth 2013 roedd 106 o rieni maeth wedi eu cofrestru gyda Chyngor Gwynedd - y nifer uchaf erioed, ac mae'r gwasanaeth yn gyson yn taro ei darged o asesu a

chofrestru 20 uned faethu newydd mewn blwyddyn. Mae strategaeth recriwtio gref mew lle ers nifer o flynyddoedd ac mae digwyddiadau recriwtio yn targedu lleoliadau arbennig yn y Sir, er enghraifft huriwyd siop ym Mhwllheli am gyfnod o wythnos y llynedd, mae hysbyseb ar gefn bws Arriva sydd yn teithio Gwynedd, hysbyseb ar gae pêl droed Bangor ac mae'r rhain yn dod a chanlyniadau cadarnhaol o ran denu a recriwtio. Erbyn hyn mae Siroedd eraill yn cysylltu yn gofyn am gyngor ac arweiniad i ddatblygu sgiliau recriwtio gan ein bod wedi bod mor llwyddiannus.

**3.8.1** Mae strwythurau yn eu lle o fewn y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd ( Uned Maethu a Mabwysiadu ) i gefnogi gofalwyr maeth yn eu gwaith o ddydd i ddydd. Mae safon y gwaith yma wedi'i ganmol yn gyson gan arolygwyr allanol yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.

**3.8.2** Mae'r Cyngor yn cydnabod y gwaith, yn manteisio ar y cyfle i ddiolch i'r gofalwyr yn gyffredinol ac i ddathlu llwyddiannau arbennig mewn cinio blynyddol a drefnir gan y Gwasanaeth. Fel arfer bydd Uned y Wasg yn sicrhau sylw i'r achlysur drwy bapurau newydd lleol. Mae'r noson hon yn un bwysig i rieni maeth ac i'r Cyngor a chyflwynir gwobrau i rieni maeth penodol sydd wedi cyrraedd cerrig milltir arwyddocaol yn eu gyrfa faethu.

## 4. <u>Trefniadau i rannu cyfrifoldebau ymarferol ar draws aelodau a swyddogion y Cyngor</u>

**4.1** Er bod pob aelod etholedig a phob aelod staff yn rhiant corfforaethol mae rôl allweddol gan nifer yn y broses o sicrhau cyrraedd ein gweledigaeth mewn perthynas â phlant a phobl ifanc mewn gofal.

**4.2** O ran y Gwasanaethau Cymdeithasol mae gan y Cyfarwyddwr Statudol ddyletswyddau penodol ac felly hefyd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Plant a Theuluoedd a gweithwyr y gwasanaeth hwnnw. Felly hefyd yr Aelod Portffolio Gofal a'r Aelod Portffolio Plant a Phobl Ifanc.

**4.3** O ran plant Gwynedd yn fwy cyffredinol ond gyda phwyslais ar anghenion y plant mwyaf bregus mae cyfrifoldeb ar y Cyfarwyddwr Arweiniol Plant a Phobl Ifanc a'r Aelod Portffolio Plant a Phobl Ifanc. Yn ychwanegol mae gan Wynedd Bencampwr Plant o blith yr aelodau etholedig.

**4.4** Gyda'r pwyslais ar blant a phobl ifanc mae'r Panel Rhiant Corfforaethol yn cynnwys aelodau etholedig a swyddogion trawsadrannol yn cydweithio ar yr un agenda er mwyn sicrhau fod plant mewn gofal yn ddiogel ac yn cael y cyfleoedd gorau mewn bywyd. Dyma'r corff strategol sy'n gosod yr agenda ar gyfer y Cyngor yn ei gyfanrwydd.

Ond ni all bodolaeth y Panel leihau cyfrifoldeb pob aelod etholedig a swyddog i fod yn rhiant corfforaethol i'r plant yma. Tra rydym yn glir ynglŷn â'r strwythur a'r rhannu cyfrifoldeb mae gwaith pellach i'w wneud o ran codi ymwybyddiaeth am y maes.

**5. Aelodaeth ,cyfrifoldebau a threfniadau'r Panel Rhiant Corfforaethol gan roddi sylw i ymarfer da .**

**5.1** Mae'r Panel Rhiant Corfforaethol yn adrodd i Gabinet y Cyngor ac fe'i cadeirir gan yr Aelod Arweiniol Plant a Phobl Ifanc .Mae aelodaeth sefydlog i'r Panel gan gynnwys yr Aelodau Cabinet canlynol:-

- Arweinydd y Cyngor Gwynedd
- Aelod Arweiniol Plant a Phobl Ifanc ac Arweinydd Portffolio Addysg
- Aelod Cabinet – Amddifadedd
- Aelod Cabinet – Gofal
- Aelod enwebwyd gan y Pwyllgor Craffu
- Pencampwr llais Plant a Phobl Ifanc

ynghyd a'r swyddogion canlynol :-

- Prif Weithredwr
- Cyfarwyddwr Corfforaethol a Chyfarwyddwr Arweiniol Plant a Phobl Ifanc
- Cyfarwyddwr Corfforaethol a Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol
- Pennaeth Addysg
- Uwch Reolwr Gwasanaethau Plant a Theuluoedd
- Rheolwr Gwasanaeth ( Adnoddau Gofal ) Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

Gellir ymestyn gwahoddiad i gynrychiolydd o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, cynrychiolydd o'r trydydd sector neu unrhyw asiantaeth arall yn ôl y gofyn.

**5.2** Mae cyfrifoldebau'r Panel wedi'u nodi yn y Cylch Gorchwyl a fabwysiadwyd gan y Panel yn ddiweddar .Mae'r ddogfen yn nodi Gweledigaeth y Panel sef
***"** Sicrhau bod plant mewn gofal cyhoeddus yn cael yr un canlyniad ag y byddai pob rhiant da yn ei ddymuno ar gyfer ei blant ei hun.**"***

**5.3** Mae hefyd yn nodi Nod y Panel sef
***"** Cydweithio'n effeithiol i sicrhau fod pob plentyn a pherson ifanc sydd mewn gofal i Wynedd yn cael mynediad at y cyfleoedd gorau mewn bywyd. **"***

**5.4** Ynghyd á'r amcanion (wedi'u selio ar 10 Hawl Sylfaenol y Plentyn) sef
*" Sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd mewn gofal i Wynedd yn*

- *Cael y cychwyn gorau mewn bywyd.*

- *Cael mynediad at amrywiaeth gynhwysfawr o gyfleoedd addysg a dysgu i'w galluogi i gyflawni eu potensial.*
- *Gallu mwynhau'r iechyd gorau posib a'u bod yn rhydd o erledigaeth, camdriniaeth ac ecsploetiaeth.*
- *Derbyn cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol, chwarae, hamdden a chwaraeon.*
- *Cael clust i wrando, yn cael eu trin a pharch ac yn cael arddel eu hil, eu hiaith, a'u hunaniaeth ddiwylliannol.*
- *Cael cartref a chymuned ddiogel sy'n cefnogi eu lles corfforol ac emosiynol fel bod ganddynt ymdeimlad cryf o berthyn a chael eu gwerthfawrogi.*
- *Rhydd o anfantais oherwydd tlodi ariannol.*
- *Cael datblygu sgiliau a hybu mentergarwch ac i gyfrannu'n bositif yn economaidd ac fel dinasyddion y dyfodol.*

**5.5** Ymysg cyfrifoldebau'r panel mae:-

- Hyrwyddo lles plant a phobl ifanc sydd mewn gofal yng Ngwynedd.
- Sicrhau a mynnu cydweithio rhwng asiantaethau a phartneriaethau er lles y plant.
- Cydlynu gwasanaethau ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc sydd mewn gofal o'r cyfnod cyn geni hyd at 21 oed ( neu 25 os ydynt mewn addysg neu hyfforddiant.
- Hyrwyddo hawliau'r plant a phobl ifanc.
- Darparu gweledigaeth a gosod blaenoriaethau strategol ar gyfer gwasanaethau i blant a phobl ifanc mewn gofal.
- Derbyn barn plant a phobl ifanc am eu gofal.
- Derbyn gwybodaeth am gyflwr presennol plant a phobl ifanc mewn gofal i Wynedd a'r ddarpariaeth ar eu cyfer.
- Hyrwyddo ymwybyddiaeth o ddyletswyddau swyddogion ar draws y Cyngor.
- Cydnabod a hyrwyddo gwaith gofalwyr maeth sy'n darparu gwasanaethau i blant mewn gofal i Wynedd.

**5.6** Sefydlwyd y Panel Rhiant Corfforaethol, ar ei newydd wedd, ym mis Gorffennaf 2012. Cynhelir cyfarfodydd o'r Panel bob chwarter gyda'r hawl i alw cyfarfod brys pe bai'r angen yn codi. Bydd y panel yn adrodd i'r Cabinet ac " i aelodau unigol y Cabinet mewn perthynas â materion o fewn eu portffolios".

**5.7** Bydd y panel yn derbyn cyfarwyddyd a gwybodaeth am ymarfer da ac ymarfer gorau gan swyddogion arbenigol sy'n aelodau o'r Panel. Rhoddir sylw i ymarfer gorau ar lefel genedlaethol a rhyng genedlaethol ac adroddir ar yr enghreifftiau hyn fel sy'n berthnasol. Esiampl o hyn yw'r defnydd a wneir o ymchwil ar hyn o bryd wrth fynd ati i lunio Strategaeth Rhiant Corfforaethol.

## 6. Mesur llwyddiant y Cyngor fel rhiant corfforaethol – yr asesiad cyfredol o'r gwaith.

**6.1** Hyd yma mae'r Panel wedi dibynnu ( gorddibynnu efallai ) ar wybodaeth ynghlwm wrth nifer o ddangosyddion perfformiad cenedlaethol a lleol lle mae'r pwyslais ar wybodaeth feintiol yn hytrach nag ar safon gwasanaethau a darpariaethau. Yn flynyddol derbynnir adroddiadau gan y Swyddogion Adolygu Annibynnol yn crynhoi perfformiad yr Uned Adolygu ac Ansawdd, gan y Rheolwr Gwasanaeth (Adnoddau) o fewn y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd sy'n canolbwyntio ar ystadegau perthnasol ac adroddiad gan y Pennaeth Addysg yn nodi cyrhaeddiad ysgolion mewn perthynas â darparu Cynlluniau Addysg Bersonol Plant mewn Gofal. Gwelir eto, fod y pwyslais ar y meintiol ac er mor ddefnyddiol a phwysig y wybodaeth o ran rhoddi trosolwg o'r maes prin yw'r wybodaeth geir o ran safon ac ansawdd gwasanaeth a darpariaeth i blant a phobl ifanc. Prin hefyd yw gwybodaeth am effaith y Cyngor yn gyffredinol fel rhiant corfforaethol na'r Panel Rhiant Corfforaethol yn arbennig ar fywydau'r plant a'r bobl ifanc yma. Yr her fawr i'r Panel yn ystod yr wythnosau nesaf yw ystyried yr amcanion a gytunwyd yn y Cylch Gorchwyl a gofyn " Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod yn llwyddo ?" a " Sut allwn ni dystiolaethu hynny ? " Bydd hyn yn rhan greiddiol o'r Rhaglen Waith. O astudio ymarfer gorau mewn cynghorau eraill gwelir fod y mwyafrif yn ei chael hi'n anodd tystiolaethu effaith ond yn sicr un o'r dulliau mwyaf effeithiol yw siarad gyda'r plant a phobl ifanc a'r gofalwyr maeth ynglŷn â'u profiadau a sicrhau eu cynnwys wrth gynllunio, datblygu a gwerthuso strategaeth a chynllun gwaith ar gyfer y Panel .

**6.2** O ran y Cyngor ei hun fel rhiant corfforaethol mae gwaith wedi digwydd mewn perthynas â hyfforddi aelodau a mynychodd 24 hyfforddiant y llynedd. Mae rhaglen waith 2013 - 2014 yn cynnwys sylw i hyfforddiant pellach i aelodau a staff ynghyd a chodi ymwybyddiaeth o Bolisi a Chanllawiau rhiantu corfforaethol yn eu mysg. Bydd disgwyl i bob gwasanaeth ddatblygu polisi a chanllawiau o'r fath i'w cymeradwyo gan y Panel a disgwylir y bydd y gwasanaethau, yn dilyn hyn, yn adrodd ar lwyddiant yn erbyn y bwriadau.

## 7. Diweddglo

**7.1** Paratowyd yr adroddiad hwn yn ymateb i nifer o gwestiynau a godwyd gan y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau am waith y Panel Rhiant Corfforaethol. Mae'r atebion, ynghyd ag Adroddiad Blynyddol y Panel a gyflwynwyd i aelodau'n ddiweddar, yn rhoi blas o waith y panel. Mae rhaglen heriol o flaen aelodau'r Panel yn arbennig mewn perthynas â sicrhau ymrwymiad corfforaethol ac mewn perthynas â sicrhau gwir lais i bob plentyn sy'n dod i ofal ac sy'n gadael ein gofal fel Cyngor. Rydym yn hyderus y gall y Cyngor wynebu'r her a gweithredu fel un er lles y plant a'r bobl ifanc mae gennym gyfrifoldeb drostynt.

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | **PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **28 Tachwedd, 2013** |
| **TEITL** | **Diweddariad ar Adolygiad Digonedd Canolfannau Hamdden Gwynedd** |
| **AWDUR** | **Ian Jones, Uwch Reolwr Datblygol, Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden** |
| **ARWEINYDDION PORTFFOLIO** | **Cynghorydd Paul Thomas** |
| | |
| **Beth sydd angen ei graffu a pham?** | **Cyfle i ystyried a chraffu argymhellion Adroddiad Digonedd ar Ganolfannau Hamdden Gwynedd a gwblhawyd gan gwmni allanol 'Just Solutions'.** |
| **A oes rhywbeth arall sydd angen i'r Pwyllgor Craffu ei wneud?** | **Nodi a chytuno i'r camau nesaf.** |
| **Beth yw'r camau nesaf?** | **1. Adrodd yn ôl i'r Fforymau Ardal**<br>**2. Ystyried goblygiadau gweithredu'r argymhellion.**<br>**3. Datblygu cynllun gweithredu.** |

## 1. <u>Cefndir</u>

1.1. Fel rhan o Adolygiad Strategol ar y maes Hamdden a Gweithgareddau Egnïol comisiynwyd adolygiad digonedd ar y ddarpariaeth canolfannau hamdden gan gwmni allanol 'Just Solutions'.

**1.2.** Gwnaed hynny yn sgil i'r cwmni gwblhau gwaith tebyg mewn awdurdodau eraill cyfagos ac ar gyfer rhanbarth y Gogledd yn ei gyfanrwydd. Fe fydd yr aelodau yn cofio i'r Aelod Cabinet gylchredeg Taflen Benderfyniad i'r perwyl hynny ym mis Ionawr, 2013. *(http://www.gwynedd.gov.uk/gwy_doc.asp?cat=7861&doc=29362&Language=2&p=1&c=1).* Cynhaliwyd sesiynau trafod penodol yn y Pwyllgorau Ardal a chafodd pob Aelod y cyfle i gyfrannu i'r adolygiad sydd wedi cymryd lle.

1.3. Yn gryno, pwrpas yr adolygiad oedd:

1.3.1. Hysbysu'r Cyngor o'r ddarpariaeth angenrheidiol leol er mwyn cyfarch anghenion y dyfodol, adnabod cynlluniau posib ar gyfer gwella, rhesymoli a datblygu.

1.3.2. Sicrhau trefniadau rheoli gorau posib er mwyn manteisio ar yr agenda gwella a'r dymuniadau pobl Gwynedd ar gyfer y cyfleusterau ac adnabuwyd yn gynharach yn yr Adolygiad.

2. **Y Sefyllfa Bresennol**

2.1. Bu'r cwmni ymgymryd â'r gwaith maes rhwng mis Ionawr, 2013 a diwedd mis Mai, 2013 ac fe dderbyniwyd drafft terfynol o'r adroddiad ym mis Hydref, 2013.

2.2. Ceir yn Atodiad 1 grynodeb gweithredol o'r adroddiad sy'n nodi argymhellion ynglŷn â chyfeiriad y ddarpariaeth i'r dyfodol ynghyd â negeseuon o safbwynt trefn gweithredu.

**3. Sefyllfa Ariannol**

3.1. Fe fydd yr Aelodau yn ymwybodol iawn o'r sefyllfa ariannol mae'r Cyngor yn ei wynebu. Bydd y Cyngor llawn, yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr, yn ystyried diweddariad ar yr her ariannol ac y bydd y darlun ar yr amserlen ar gyfer yr her ariannol i wasanaethau unigol yn dod yn fwy eglur wedi hynny.

3.2. Fel y gwyddoch, nid yw'r gwasanaeth yn un statudol sy'n gosod her arbennig i'r Cyngor ar adeg pan fyddwn yn edrych ar ein gwasanaethau craidd. Mae sylwadau yn y wasg genedlaethol eisoes yn nodi hynny gyda'r gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio'n aml fel esiampl o wasanaeth sydd dan fygythiad.

3.3. O ganlyniad, a thra roedd hynny wastad yn ystyriaeth pan gwblhawyd y gwaith o gynhyrchu'r adroddiad digonedd, bydd angen pwyso a mesur beth sy'n bosibl i'r gwasanaeth ei gyflawni o fewn yr hinsawdd ariannol newydd sydd o'n blaen.

**4. Camau Nesaf**

4.1. Yn ystod y cyfarfodydd Pwyllgorau Ardal, fe nodais fy mwriad i adrodd yn ôl i'r fforymau hynny pan yn ymarferol bosib. Hynny er mwyn i'r Aelodau gael cyfle i leisio barn ar yr argymhellion ac i dderbyn adborth gan yr Ymgynghorwyr.

4.2. Dylid tynnu sylw penodol at y ffaith mai cynigion yr Ymgynghorwyr yn unig y gweler yn yr Atodiad. Byddaf fel Aelod Cabinet yn ystyried beth sy'n ymarferol i'w weithredu gan ofyn am gymeradwyaeth y Cabinet Llawn pan fydd angen gwneud penderfyniadau arwyddocaol.

Atodiad 1




# Adolygiad Digonolrwydd Gwasanaethau Hamdden Cyngor Gwynedd Hydref 2013 Adroddiad Drafft Crynodeb Gweithredol

## 'Just Solutions' Ymgynghorwyr Hamdden

Crynodeb gweithredol yw hwn o Adolygiad Digonolrwydd Hamdden 2013 a gynhaliwyd ar ran Cyngor Gwynedd i lywio darpariaeth a chynlluniau i'r dyfodol.

## EGWYDDORION SYLFAENOL

### Egwyddorion Cyffredinol

Mae'r adolygiad yn cydnabod nad cau Canolfannau Hamdden yw'r ffordd ymlaen a bod rhaid ystyried newidiadau sylfaenol – oriau agor diwygiedig a dulliau newydd yn ogystal â modelau cydleoli gwahanol i gael mwy o gwsmeriaid a chyflawni arbedion hefyd – os am gynnal gwasanaethau mewn hinsawdd o bwysau ariannol cynyddol.

Ar ben hynny, gellir ond cael gwelliant trwy ddod â gwasanaethau at ei gilydd – gan greu mwy o resymau i bobl ddefnyddio'r cyfleusterau, ochr yn ochr â modelau rheoli newydd sy'n cofleidio dulliau gwahanol, priodol i bob cymuned – a hyn oll yn canolbwyntio ar y prif ganlyniad o wella iechyd a lles pobl Gwynedd.

Argymhellir hefyd na fyddai sefydlu ymddiriedolaeth i reoli'r portffolio cyfredol o gyfleusterau er mwyn sicrhau arbedion treth o reidrwydd yn cynrychioli'r ateb cywir yn y tymor hir ar gyfer Gwynedd – yn bendant ddim i gychwyn. Gall newidiadau i fudd-daliadau treth fod ar y gorwel a bydd ymrwymiad tymor hir i fodel rheolaethol cyffredinol newydd yn cyfyngu ar y cyfle i wneud newidiadau i'r dyfodol a chyflawni arbedion a gwelliannau eraill. Does dim ateb cyflym, yn hytrach mae angen nifer o ymagweddau newydd, a rhagwelir y dylai hyn gyrraedd targed arbedion uwch na'r arbedion NNDR fyddai'n cael eu cyflawni trwy roi cyfleusterau mewn model rheoli ymddiriedolaeth.

Rhaglen Foderneiddio a Newid Dwy i Dair Blynedd

Mae'r adroddiad yn pwysleisio na ellir mynd i'r afael yn llwyddiannus â'r amryw o heriau sy'n wynebu Cyngor Gwynedd – cynnal gwasanaethau ar draws ardal ddaearyddol fawr, i lawer o gymunedau bychain lle mae materion gwledig i'w goresgyn – trwy un dull sengl newydd wedi'i gynnwys mewn gwasanaeth unigol. Yn hytrach, argymhellir rhaglen newid sylfaenol fydd yn cael effaith ar draws yr ystod o wasanaethau cymunedol yn ogystal â gwasanaethau gweithredol canolog, a fydd angen ei gweithredu dros gyfnod o 2-3 blynedd.

Ehangach na Hamdden – Mae angen Penderfyniadau Corfforaethol

Mae'n annhebygol y gellid sicrhau'r manteision a'r effeithlonrwydd a nodir yn yr adroddiad heb iddynt gael eu hystyried a'u mabwysiadau ar lefel gorfforaethol uwch – ni ellir cyflawni'r enillion arfaethedig trwy newidiadau i Wasanaethau Hamdden yn unig.

Canlyniadau Buddsoddi Hamdden

Mae pwysigrwydd Hamdden at ddibenion gwella canlyniadau iechyd yn amlwg yn ganolog i weledigaeth Cyngor Gwynedd ar gyfer gweithredu ataliol, h.y. annog lefelau gweithgarwch corfforol uwch er mwyn lleihau'r pwysau ar Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Fodd bynnag, i strategaeth o'r fath fod yn llwyddiannus, yr unig 'gyfrwng' wirioneddol gost-effeithiol ar gyfer cyflawni'r canlyniadau iechyd yw darparu profiad addysg ysbrydoledig – creu byd lle mae pobl ifanc yn gyfrifol am eu ffordd o fyw iach a gweithgar eu hunain a'u hannog i fod yn arweiniol mewn trefniadaeth chwaraeon yn y dyfodol.

Rhaid i blant a phobl ifanc fod yn ffocws – mae'n hanfodol dylanwadu ar ffordd o fyw yn y blynyddoedd cynnar – dyma lle gall

Hamdden wneud y cyfraniad mwyaf i helpu i gyfarch materion 'iechyd y genedl'.

Yr hyn sy'n fwy anodd mynd i'r afael ag ef yw'r potensial i effeithio ar y problemau a'r beichiau mwyaf difrifol ar y Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Ochr yn ochr â hyn, rhaid cydnabod bod y rhan fwyaf o fuddsoddiad Gwasanaethau Hamdden mewn cyfleusterau, lle nad yw'r rhan fwyaf o'r cwsmeriaid rheolaidd yn flaenoriaeth ac 'mewn perygl', sef y gynulleidfa darged ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae angen mwy o ymrwymiad gan y Gwasanaeth Iechyd i ariannu unrhyw gynlluniau Hamdden ataliol o ran salwch iechyd yn y dyfodol.

Am y rhesymau hyn, ni ddylai cael effaith ar flaenoriaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol fod yr unig gyfiawnhad ar gyfer buddsoddi mewn Hamdden yn y dyfodol. Mae angen hyrwyddo'r achos buddsoddi Hamdden ar gyfer amcanion addysg, adfywio a thwristiaeth, a 'gwell cymunedau' hefyd. Gall gweithgaredd corfforol a chwaraeon gyfrannu'n sylweddol at adfywio'r economi a chymunedau – yr economi ymwelwyr a dysgu gydol oes.

Mae'r adroddiad yn argymell bod Cyngor Gwynedd yn ystyried y themâu canlynol fel blaenoriaethau ar gyfer strategaeth Hamdden yn y dyfodol:

1. Ysgogi plant a phobl ifanc i arddel a chynnal ffordd o fyw iach ac egnïol.
2. Helpu i gadw pobl hŷn yn weithgar ac yn rhan o'u cymunedau lleol – "*more outreach, than Leisure Centre orientated*" – gan alluogi sefydliadau lleol i ddarparu ffyrdd cost isel o gefnogi pobl hŷn sy'n llai annibynnol i fyw bywydau iach.
3. Cefnogi darparwyr eraill e.e. y sectorau gwirfoddol a phreifat.
4. Annog mwy o ddefnydd o'r amgylchedd naturiol.

5. Darparu cymorth hanfodol, gan danategu a dathlu llwyddiant ym myd chwaraeon.
6. Darparu ymyraethau arbenigol fel gwasanaeth cyhoeddus dim ond lle mae tystiolaeth o angen a lle nad oes darparwr amgen arall.

<u>Egwyddorion a Rhesymeg sy’n cyfarwyddo Blaenoriaethau a Dyluniad Gwasanaethau i’r dyfodol</u>

Nid yw mwyach yn ymarferol i ddarparu'r un gwasanaeth i bawb... o ystyried yr arbedion cyllidol fydd yn ofynnol, mae’r adroddiad yn argymell ystyried yn ofalus y rhesymeg sy’n sail i flaenoriaethau’r gwasanaeth i’r dyfodol – mae rhesymwaith ‘hawl i fusnes’ yn cael ei gyflwyno fel modd o ddiffinio cwmpas y ddarpariaeth yn y dyfodol – gan wahaniaethu rhwng pwrpas a rôl unigryw/hanfodol yr Awdurdod ochr yn ochr â gwasanaethau sydd yn ‘ddewisol’ ac y gellir eu darparu mewn ffordd wahanol. Crynhoir y rhain fel a ganlyn:

- Gwasanaethau ‘hawl’ hanfodol – mae gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd i’w darparu. Er Enghraifft:
    - Addysg a dysgu – yr hawl i bob person ifanc gaffael llythrennedd, rhifedd ac yn achos hamdden – sgiliau llythrennedd corfforol trwy brofiad dysgu ‘ysbrydoledig’.
    - Rhaglenni iawndal – cyfrifoldeb i ddarparu ymyraethau arbenigol lle na fydd neb arall yn gwneud hynny h.y. llythrennedd oedolion; cymorth i gefnogi pobl sydd ag anghenion arbennig; cymorth cartref – rhaglenni byw’n annibynnol gyda chefnogaeth ar gyfer pobl hŷn

- Gwasanaethau dewisol – darparu cyfleusterau i fodloni gweithgareddau ‘amser hamdden’ oedolion – ymateb i ‘ddewis y farchnad’, er enghraifft:

    - Y cynnig ‘busnes’ – dan arweiniad y farchnad, gweithgareddau sy’n gwasanaethu anghenion hamdden

a ffordd o fyw – dewis personol ymhlith y gymuned oedolion yn cystadlu gydag ystod o ddewisiadau amgen gan gynnwys cynnyrch masnachol – iechyd a ffitrwydd; pêl-droed 5 bob ochr; golff; 'hamdden gwyliau'; adloniant awyr agored rhad ac am ddim h.y. cerdded, loncian a seiclo; llawer o chwaraeon clwb.

- Bydd y gwasanaethau hyn yn elwa o ddefnyddio mwy o fodelau busnes 'masnachol'.

Mae'r broses o wahaniaethu rhwng gwahanol ddibenion sylfaenol o'r fath yn helpu i gyfeirio'r sail resymegol ar gyfer y ddarpariaeth yn y dyfodol. Yn debyg i awdurdodau lleol eraill, mae Cyngor Gwynedd yn dymuno y bydd gwasanaethau yn y dyfodol yn cyflawni canlyniadau gwell ac yn cyflawni arbedion effeithlonrwydd ar yr un pryd. Mae hyn yn gofyn am adolygiad ac eglurhad o resymeg, pwrpas a blaenoriaethau'r gwasanaeth – gan ddod yn bwynt cyfeirio hanfodol ar gyfer darparu yn y dyfodol – dylai egwyddorion o'r fath hefyd fod yn berthnasol ar draws gwasanaethau statudol ac anstatudol, gan gynnwys darpariaeth ieuenctid a llyfrgelloedd, ond all yr egwyddorion ond cael eu pennu'n gorfforaethol.

**ARGYMHELLION STRWYTHUROL**

<u>Y gymysgedd 'Hamdden'</u>

Er mwyn llunio gwasanaethau cymunedol sy'n fwy effeithlon ac effeithiol mae'r adroddiad yn argymell bod y gwasanaeth 'Hamdden' cyfredol – chwaraeon a gweithgareddau corfforol yn cael ei leoli a'i farchnata ochr yn ochr â gwasanaethau 'hamdden', 'diwylliant' a gwelliannau cymunedol a dysgu gydol oes eraill – 'pecyn' cyflenwol o gynnyrch, gwasanaethau a chyfleusterau yng nghyswllt diwylliant cymunedol, hamdden a dysgu gydol oes – llyfrgelloedd, theatrau, amgueddfeydd ac orielau, y celfyddydau, gwasanaethau ieuenctid a

chwarae, canolfannau cymunedol, neuaddau eglwysi, ysgolion – i gyd yn adnodd cymunedol ar gyfer gweithgareddau hamdden a dysgu gydol oes.

Mae'r gwasanaethau hyn yn rhannu'r un dibenion a chanlyniadau iechyd a lles/gwell cymunedau/economi ymwelwyr ehangach a byddent yn elwa o ddefnyddio model busnes a hawl cyson.

Gyda'i gilydd, gellir eu rheoli a'u cyflwyno i ddarparu ffocws cymunedol ar y cyd a gwell cynnig i'r cwsmer yn ogystal â mwy o amrywiaeth o effeithlonrwydd h.y. cydleoli a rheolaeth, gwasanaeth allgymorth cyfrannol.

<u>Lleoli Hamdden yn y Gwasanaeth/Adran Gywir</u>
Mae'r adroddiad yn argymell y dylid rhoi ystyriaeth bellach i leoliad mwyaf effeithiol y gwasanaeth Hamdden o fewn strwythurau'r Cyngor yn y dyfodol os yw am gynyddu effaith cymunedol a sicrhau effeithlonrwydd.

Nid yw lleoliad adrannol presennol y gwasanaeth Hamdden, ochr yn ochr â Gwasanaethau Gofal, yn cael ei ystyried y lleoliad gorau. Nid oes amheuaeth nad yw'r rheolwyr gweithredol wedi gweithio'n galed i sicrhau bod y strwythur presennol yn gweithio'n dda, ac mae hyn wedi arwain at nifer o ddulliau gwell o weithio yn ogystal â chreu canlyniadau ariannol. Fodd bynnag, i gyflawni mwy o effaith a chefnogi newid radical gan alluogi mwy o arbedion effeithlonrwydd mae'r adroddiad yn argymell un o ddau leoliad addas:

- Un ai: -
  Addysg a Dysgu Gydol Oes – lle gall y gwasanaeth roi ffocws gwell ar gefnogi plant a phobl ifanc i ddysgu'r sgiliau angenrheidiol i fwynhau ffordd o fyw iach a gweithgar fydd yn cyd-fynd â'r 'hawl a haeddiant' i addysg a dysgu.

- Manteision: yn faes blaenoriaeth; statws uwch ar gyfer Hamdden; gwell sefyllfa i ddylanwadu a chefnogi ysgolion; yn cefnogi model dysgu cymunedol os caiff ei fabwysiadu i ddarparu gwasanaethau lleol yn y dyfodol.
- Anfanteision: perygl o ddod yn flaenoriaeth isel gaiff ei 'golli' yng nghanol gwasanaeth addysg mwy; nid y sefyllfa orau i ddarparu gwasanaethau cymunedol ac oedolion eraill – y model busnes uchod

- Neu -
  Economi ac Adfywio– cyd-fynd ag adfywio a gwelliant cymunedol a gwasanaethu'r economi ymwelwyr.
  - Manteision: perthynas agosach gyffredinol rhwng hamdden, llyfrgelloedd, gwasanaethau diwylliant a datblygu cymunedol ac adfywio economaidd; 'llwyfan' ar wahân i gomisiynu a chynnig gwasanaethau cefnogol ar gyfer hawliau pobl ifanc yn ogystal ag ymyraethau arbenigol megis gweithgareddau ar gyfer pobl hŷn.
  - Anfanteision: cymysgedd o wasanaeth sy'n flaenoriaeth is a llai o gysylltiad â chanlyniadau iechyd.

<u>Y Dull Rheoli</u>
Mae'r adroddiad yn cyfeirio at nifer o wahanol fodelau lleol yn ogystal â model darparu rheolaethol ganolog. Ni argymhellir dull cyffredinol – yn hytrach argymhellir modelau mwy priodol sy'n gwasanaethu anghenion y gwahanol gymunedau orau, gan adeiladu ar gryfderau pob dalgylch lleol.

Gellir crynhoi'r modelau rheoli arfaethedig sydd i'w hystyried i dair lefel:

- **Modelau Cymunedau Gwledig:** - 'cymuned ddysgu'/ modelau 'menter gymunedol' – defnyddio cryfderau cymunedau lleol – cadw a gwella gwasanaethau cymunedol - gan wneud gwell defnydd o adnoddau lleol - hwyluso gwneud penderfyniadau a pherchnogaeth leol - manteisio i'r eithaf ar rôl yr ysgol uwchradd - datblygu rôl arweinyddiaeth leol y cynghorau tref a chymuned - rhannu adnoddau a rhoi'r sector gwirfoddol wrth wraidd y broses benderfynu yn y dyfodol. Dull i sicrhau mwy o fodelau darparu cymunedol cynaliadwy yn cynnwys lefelau uwch o gydleoli, cydreoli a rhannu adnoddau.

- **Modelau Trefi Mwy** - Cefnogi a galluogi datblygu model rheoli strategol cryfach ar gyfer darparu cyfleusterau hamdden arbenigol yn y canolfannau cyrchfan i dwristiaid a lle mae'r boblogaeth yn uwch. Gellid defnyddio'r rheolwyr strategol, sydd ag arbenigedd uwch o ran rheolaeth hamdden, i ddarparu gwasanaethau cefnogol i'r modelau rheolaeth cymunedau gwledig hefyd.
  Bydd disgwyl i'r modelau trefi mwy fynd ar ôl darpariaeth gymunedol fwy cynaliadwy, gan gynnwys lefelau uwch o gydleoli, cydreoli a rhannu adnoddau – ac yn benodol uchafu defnydd a rheolaeth yr adeiladau hamdden mawr ar gyfer gwasanaethau ieuenctid, twristiaeth a llyfrgelloedd.

  Yn y dyfodol, gellid adolygu'r canolfannau strategol ymhellach ochr yn ochr â dewisiadau rheolaeth eraill gan gynnwys ystyried dull mwy masnachol; modelau rheolaeth Ymddiriedolaeth ac ati.

- **Rheolaeth Ganolog -** ochr yn ochr â'r newidiadau uchod mewn darpariaeth weithredol yn arwain at fwy o annibyniaeth gymunedol neu arbenigedd strategol, mae'r adroddiad yn

argymell symud tuag at fodel symlach, canolog sy’n gyfrifol am gomisiynu ac adolygu sut y cyflawnir canlyniadau blaenoriaeth y Cyngor, ac am ddarparu neu ‘brynu’ gwasanaethau cefnogol arbenigol lle bo angen. (Mewn rhai achosion gallai hyn dynnu ar y sgiliau arbenigol sydd ar gael yn y canolfannau strategol).

## MWY O BOLISÏAU GWEITHREDU LLEOL ADDAS

Gwahanol gyfleusterau a chymunedau

Mae’r adroddiad yn argymell amrywiaeth o ddulliau mwy penodol sy’n briodol i bob ardal. Mae'r rhain wedi eu crynhoi fel a ganlyn:

- Blaenoriaeth arbennig i gefnogi cymunedau Tywyn, Dolgellau, Blaenau Ffestiniog, Bala, Bethesda a Phenygroes – datblygu ffyrdd newydd o oresgyn anfantais wledig ac unigedd – er mwyn cynnal y cynnig hamdden ond trwy ddulliau newydd o reoli a rhannu. Cofleidio, ymgysylltu a chefnogi’r sectorau addysg a gwirfoddol a chaniatáu cynllunio gwahanol oriau agor a pholisïau prisio i weddu’n well i amgylchiadau ac anghenion lleol.
- Ail-lunio cynnig Abermaw gan edrych ar opsiynau ar gyfer cydleoli gwasanaethau a’u hanelu’n well gyda’r economi fasnachol/ymwelwyr.
- Ail ddylunio'r cynnig dyfrol i’r dyfodol ym Mangor i ystyried y cynlluniau datblygu ochr yn ochr â rhesymoli’r cynnig Hamdden presennol.
- Adolygiad o Ganolfan Tenis Arfon i ystyried mwy o gymysgedd ‘masnachol’ o gyfleusterau.
- Ail siapio dyluniad a defnydd Canolfan Hamdden Porthmadog i ddod ag ystod ehangach o wasanaethau (Llyfrgell ac Ieuenctid) at ei gilydd o dan un to a strwythur rheoli.

Argymhellion Cyffredinol

- Alinio ymhellach y cynllun dyfrol i weledigaeth Swim Wales.
- Datblygu gweledigaeth a chynllun ar y cyd â'r Bartneriaeth Awyr Agored i uchafu'r defnydd o'r awyr agored.

**MATERION ARIANNOL**

Bydd targedau cyllidebau 2015/16 a thu hwnt yn gynyddol heriol i Hamdden. Bydd cost cynnal y stoc hamdden presennol yn naturiol yn arwain at ffocws uwch ar adeiladau a sut cânt eu rheoli – bydd hyn yn parhau i fod yn brif fater.

Dros y 3-4 blynedd diwethaf, mae rheolwyr y canolfannau wedi gwneud cynnydd mawr i leihau costau rhedeg net y canolfannau. Gyda'r adferiad gweithredol cyffredinol yn cynyddu o 49% i 57% gyda chynnydd rhag amcanol pellach i 64% yn 2012/13 - arbediad net o dros £470k dros 3 blynedd sy'n debygol o fod dros £800k dros 4 blynedd erbyn diwedd 2012/13.

Mae pob un o'r canolfannau hamdden wedi sicrhau gwelliannau, er enghraifft: cynyddu nifer y pecynnau debyd uniongyrchol; lleihau costau staff; a gwell marchnata - i gyd yn cynorthwyo i gynhyrchu incwm ychwanegol.

Fodd bynnag, gan fod gwariant Gwasanaeth Hamdden yng Ngwynedd yn parhau'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol a thoriadau Llywodraeth Leol yn debygol o waethygu o 2015 ymlaen, ystyrir y bydd arbedion sylweddol pellach ond yn gallu cael eu cyflawni drwy gyflwyno newidiadau mwy radical.

Nid yw'r astudiaeth yma wedi gallu gwneud ymchwil a dadansoddiad manwl i berfformiad ariannol presennol pob canolfan hamdden unigol i allu cyfarwyddo arbedion effeithlonrwydd penodol (er bod nifer o newidiadau ymarferol yn cael eu hargymell ar gyfer

gwahanol gyfleusterau yn yr adroddiad). Ni theimlwyd bod hyn yn gam cyntaf priodol. Yn hytrach argymhellir ystyried y gyfres o egwyddorion isod yn gyntaf:

i. Y rhesymeg (busnes/hawl)
ii. Gwahanol fodelau ac opsiynau darparu
iii. Opsiynau ar gyfer rheolaeth model traws-wasanaeth a chydleoli
iv. Arwain at adolygiad o fodelau rheolaeth ganolog.

Byddai pob un o’r uchod yn llywio newid gweithredol yn y dyfodol ac yn arwain at ystod eang o arbedion effeithlonrwydd yn ogystal â gwell datrysiad cymunedol.

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | **Pwyllgor Craffu - Gwasanaethau** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **28ain o Dachwedd, 2013** |
| **TEITL YR EITEM** | **Gweithrediad a Gwariant a'r Cynlluniau Grant Addasiadau i Bobl ag Anableddau** |
| **AELOD CABINET** | **Cyng. John Wyn Williams** |
| | |

**<u>1.0 Cyflwyniad</u>**
Mae'r Adran Dai, Cyngor Gwynedd yn gweinyddu'r Cynllun Grant Addasiadau i'r Anabl ar gyfer eiddo sector breifat. Ceir trefniadau gwahanol ar gyfer ariannu addasiadau ar gyfer tenantiaid sy'n byw mewn eiddo cymdeithasol a hefyd ar gyfer Chartrefi Cymunedol Gwynedd. Mae'r trefniadau yma wedi cael eu hamlinellu o fewn yr adroddiad.

Mae'r Grant Addasiadau o gymorth i unigolion gydag anableddau i dderbyn addasiadau i'w heiddo er mwyn hyrwyddo annibyniaeth a chynorthwyo pobl i barhau yn eu cartrefi yn y gymuned. Defnyddir y grant ar gyfer amrediad o wahanol addasiadau gan gynnwys gosod ramp, addasiadau i'r ystafell ymolchi a'r gegin, gosod cadair grisiau ac ar rai achlysuron estyniadau pwrpasol.

**<u>2.0 Trafodaeth</u>**

**2.1 Grant Cyfleusterau i'r Anabl – (Sector Breifat)**
Mae Grant Addasiadau i'r Anabl yn grant statudol o dan Ddeddf Grantiau, Adeiladwaith ac Adfywio 1996 ac yn cael eu hariannu o gronfeydd cyfalaf y Cyngor. Mae gwariant yr Adran Dai a'r Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yng Ngwynedd (Sector Breifat) yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn yn ddibynnol ar nifer a natur y galw ond yn tueddu i fod rhwng £900k i £1.1 miliwn y flwyddyn. Defnyddir y gronfa i ymateb i anghenion hunan berchnogion, a gyda chaniatâd y landlord, pobl sy'n rhentu eiddo preifat. Gosodir uchafswm statudol o £36k ar gyfer cwblhau gwaith grant addasiadau ond mae'r Adran Dai yn gallu cyfrannu swm ychwanegol uwchlaw hyn gan ddefnyddio pwerau dewisol. Mae Cyngor Gwynedd wedi sefydlu Benthyciad Dewisol er mwyn gwireddu rhai cynlluniau sydd uwchlaw'r trothwy gwriant. Dyfarnir y Benthyciad Dewisol fel rheol i gwblhau addasiadau cymhleth neu estyniadau pwrpasol yn bennaf ar gyfer plant a phobl ifanc gydag anableddau neu bobl gyda chyflyrau dwys, cymhleth neu hir dymor.

Cyn cymhwyso rhaid cwblhau prawf modd (ac eithrio pan mae plentyn yw'r ymgeisydd ), ac mae perfformiad yr Adran wrth gwrdd â'i dyletswyddau yn cael ei harolygu yn allanol. Mae'r amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith yn un o ystadegau perfformiad craidd y Cynulliad.

Mae lefel y gwariant a'r galw ar y gyllideb yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn yn ddibynnol ar natur y gwaith sy'n cael ei gwblhau yn ystod y flwyddyn, fel sydd wedi ei gadarnhau isod.

| Gwariant ar Grant Addasiadau i'r Anabl | |
|---|---|
| Blwyddyn | Gwir Wariant |
| 2009/10 | £1,088,480 |
| 2010/11 | £926,840 |
| 2011/12 | £931,620 |
| 2012/13 | £1,121,520 |

Er bod lefel y grant yn amrywio mae cyfartaledd cais grant fel rheol rhwng £7,000 a £8,000. Gall y cyfartaledd gael ei effeithio os bydd nifer o estyniadau yn disgyn o fewn yr un flwyddyn ariannol.

Cyfrifoldeb staff y Cyngor (Therapyddion Galwedigaethol) yw cymeradwyo a chyflwyno ceisiadau am grant addasiadau. Er bod modd i Therapyddion Galwedigaethol sy'n gyflogedig gan iechyd awgrymu addasiadau rhaid i unrhyw asesiad dderbyn cymeradwyaeth Therapyddion Galwedigaethol Cyngor cyn cael ei gyflwyno. Ar hyn o bryd mae'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn cyflogi cyfanswm o 14 Therapydd Galwedigaethol - gan gynnwys 7 therapydd galwedigaethol maes, 3 uwch ymarferwr, 1 Therapydd Plant a 3 therapydd galluogi. Mae Therapyddion yn canolbwyntio ar geisio cadw pobl yn annibynnol a diogel yn eu cartrefi ai cefnogi i adnabod a defnyddio offer addas a phriodol. Fel rhan o'r gwaith byddent yn ystyried gwahanol ymyraethau ac ymarferion. Yn ddibynnol ar yr asesiad cychwynnol ac effaith ymyraethau eraill byddent yn ystyried priodoldeb cyflwyno cais am addasiadau drwy'r Cynllun Grant addasiadau.

**2.2 Cynllun Man Addasiadau i bobl Anabl – (Cynllun Cymorth yn y Cartref)**
Yn ychwanegol i'r Grant Cyfleusterau Anabl mae'r Cyngor hefyd yn cyfrannu o adnoddau cyfalaf at Gynllun Man Addasiadau. Mae'r Cynllun wedi sefydlu er mwyn cwblhau man waith ac addasiadau gwerth hyd at £350 yn gyflym fel rheol o fewn 15 diwrnod o dderbyn cyfeiriad. Anelir y cynllun at hunan berchnogion a thenantiaid preifat a chaiff ei weinyddu gan Ofal a Thrwsio sy'n derbyn cyfraniad pellach gan y Cynulliad. Pwrpas y Cynllun yw sicrhau mynediad cyflym i fan addasiadau gyda'r bwriad o leihau pwysau a chost ar wasanaethau gofal. Defnyddir y Cynllun yn arbennig i hwyluso dychwelyd adref ar ôl arhosiad ysbyty gyda'r nod o osgoi addasiadau mwy cynhwysfawr a chostus yn y dyfodol.

| | **Man Waith ac Addasiadau (Gwaith Unigol Gwerth llai na £350)** | Cyfnod 2: 1 Hyd 2012 – 31 Maw 2013 | Cyfnod 1: 1 Ebrill 2013 – 30 Medi 2013 |
|---|---|---|---|
| 1. | Nifer o gleientiaid a dderbyniodd addasiadau | 341 | 320 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ymateb brys | | |
| 2. | Nifer o achosion a gyflawnwyd o fewn yr amser targed | 96% | 96% |

Y targed ar gyfer cwblhau'r gwaith man addasiadau yw 10 diwrnod gwaith o dderbyn cyfeiriad gan yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r gwaith yn cael ei gwblhau gan grefftwyr sy'n gyflogedig gan Ofal a Thrwsio. Sefydlwyd y cynllun er mwyn ceisio cyflymu'r broses o gwblhau man addasiadau a lleihau'r galw am geisiadau grant addasiadau sy'n cael ei neilltuo ar gyfer addasiadau sy'n debygol o gostio mwy na £1,000. Mae'r Adran wedi clustnodi swm o £100,000 y flwyddyn ar gyfer y cynllun ac mae Gofal a Thrwsio yn denu nawdd ychwanegol i'r Gronfa. Mae'r gwaith yn cael ei flaenoriaethu ar sail angen, nid oes prawf modd ac ni fydd angen caniatâd cynllunio. Er yn fanteisiol cyfeirio gwaith i ffwrdd oddi wrth y Cynllun Grant Addasiadau gall ddylanwadu ar berfformiad gan mai gwaith mwy cymhleth sy'n cael ei gyfeirio at y Cynllun Grant.

**2.3 Addasiadau i bobl Anabl sy'n denantiaid gyda Chymdeithas Dai**
Mae tenantiaid sydd angen addasiad ac yn byw o fewn eiddo Cymdeithas Dai yn gallu cyflwyno cais am Grant Addasiad Ffisegol (PAG). Mae'r gwaith yn cael ei ariannu o gronfa Grant Tai Cymdeithasol y Cynulliad ac mae Llywodraeth Cymru wedi neilltuo swm o hyd at £8.5 miliwn y flwyddyn ar gyfer Cymru. Disgwylir i Gymdeithasau Tai ariannu man addasiadau i'w heiddo o fewn eu hadnoddau a bydd y gronfa yn cael ei defnyddio ar gyfer addasiadau mawr tu hwnt i'r hyn fydd y Gymdeithas Dai yn gallu ei ariannu.

Nid yw'r Cymdeithasau Tai a sefydlwyd yn dilyn trosglwyddo stoc tai yn gymwys i ymgeisio am arian o'r gronfa PAG gan fod disgwyliad eu bod wedi sicrhau fod darpariaeth ddigonol ar gyfer addasiadau o fewn eu cynlluniau busnes ar sail patrwm gwariant o fewn y Gyllideb Refeniw Tai yn ystod y cyfnod yn arwain at y trosglwyddo.

**2.4 Addasiadau i Bobl Anabl o fewn Stoc Dai Cartrefi Cymunedol Gwynedd**
O fewn cytundeb trosglwyddo Cartrefi Cymunedol Gwynedd clustnodwyd swm o £600,000 ar gyfer ariannu addasiadau gydag ymrwymiad am gyfnod o 30 mlynedd a chynnydd blynyddol ar sail chwyddiant. Mae'r swm i'w flaenoriaethu ar gyfer cyfeiriadau gan Therapyddion Galwedigaethol (Gwasanaethau Cymdeithasol) ond mae dealltwriaeth y gellid defnyddio gwaddol y gyllideb at raglen o addasiadau i gwrdd â gofynion tenantiaid gydag anabledd fel rhan o Safon Ansawdd Cymru. Bydd unrhyw arian dros ben o un flwyddyn ariannol yn trosglwyddo i gyllideb y flwyddyn ganlynol. Mae cyfrifoldeb am weinyddu'r trefniadau yn gorwedd gyda Chartrefi Cymunedol Gwynedd ac maent wedi cyflogi 2 Therapyddion Galwedigaethol ei hunain i hwyluso gwaith Safon Tai Cymru.

Yn ystod 2012/13 amlygwyd fod pwysau ar y cyllid gydag ymrwymiadau a cheisiadau am waith ymhell tu hwnt i'r arian oedd wedi ei ddynodi. Yn sgil hyn bu trafodaethau gyda Chartrefi Cymunedol Gwynedd ynglŷn â'r drefn o flaenoriaethu'r ac asesu ceisiadau ac fe gytunwyd i sefydlu Panel Addasiadau ar y Cyd i adolygu'r sefyllfa. Ymddengys bellach fod y mesurau a roddwyd mewn lle wedi lleddfu pwysau ac fe fyddwn yn disgwyl i'r galw am addasiadau fel rhan o Gynllun Safon Ansawdd Cymru ostegu dros yr 18 mis nesaf wrth i'r rhaglen ddirwyn i ben.

Serch hyn mae'r galw am addasiadau anabl yn gallu amrywio yn sylweddol o flwyddyn i flwyddyn yn ddibynnol ar natur a chymhlethdod yr achosion unigol. Yn sgil hyn mae ymrwymiad i barhau i arolygu'n ofalus patrwm y gwariant. Bydd yn bwysig hefyd ystyried y cyfleoedd sy'n bodoli i wneud y defnydd gorau o'r stoc dai a'r eiddo o fewn y stoc dai sydd wedi eu haddasu neu eu dynodi yn bwrpasol ar gyfer pobl gydag anableddau.

| Blwyddyn Ariannol | Ymrwymiad y Cytundeb Trosglwyddo | Gwir Wariant | Gorwariant neu danwariant | Cyllideb ar gael +/- gôr neu dan wariant |
|---|---|---|---|---|
| 2010/11 | £600,000 | £565,086 | -£32,914 | £600,000 |
| 2011/12 | £616,800 | £676,430 | +£24,716 | £651,714 |
| 2012/13 | £630,366 | £513,101 | -£117,265 | £605,650 |
| 2013/14 | £645,000 | | | £762,264 |

**3.0 Amserlen a Phroses o Gwblhau Cais**

Rhaid dilyn trefn arbennig wrth gyflwyno cais am grant addasiad i'r anabl ac mae nifer o gamau anorfod yn rhan o'r broses honno. Yn naturiol bydd yr union gamau a'r cyfnod a ganiateir ar gyfer y camau yn amrywio yn ôl cost a natur y gwaith. Os bydd angen gwaith adeiladu sylweddol e.e. estyniad rhaid dilyn proses tebyg i'r un sydd wedi eu hamlinellu isod :-

| | Camau Allweddol o Fewn y Broses | Cyfnod |
|---|---|---|
| 1 | Cyfeiriad i'r Gwasanaeth Cymdeithasol | |
| 2 | Asesiad o Angen "Hanfodol ac Addas"- Therapydd Galwedigaethol | 2 Wythnos |
| 3 | Cyfeiriad ac Asesiad "Rhesymol ac Ymarferol" - Gwasanaeth Tai | 2 Wythnos |
| 4 | Cwblhau Prawf Modd - Asesiad o Allu i Gyfrannu - Defnyddiwr | 4 Wythnos |
| 5 | Cyfarwyddyd i Gyflwyno Cais a Llunio Bras Gynlluniau | 2 Wythnos |
| 6 | Trafodaeth - Therapydd / Swyddog Grantiau Defnyddwyr | Amrywiol |
| 7 | Cymeradwyo Cynlluniau Terfynol | Amrywiol |
| 8 | Sicrhau Caniatâd Cynllunio | 6 wythnos |
| 10 | Cais Rheolaeth Adeiladu a Gwaith Cyn Tender (os yn berthnasol) ee<br>i) Caniatâd Rhan 104 caniad i adeiladu dros draen<br>iii) Cyfarwyddo peiriannydd strwythurol cyn tendro | Amrywiol |


| | | |
|---|---|---|
| 11 | Cwblhau  Dogfennau Tendr | 2 wythnos |
| 12 | Cyfnod Tendr (lleiafswm 3 wythnos) | 3 wythnos |
| 13 | Asesu Tendrau  ac ymdrin â materion cytundebol | 1 wythnos |
| 14 | Cyfarwyddo Contractwr. | 4- 6 wythnos |
| 14 | Gwaith ar y Safle. | Amrywiol |
| 15 | Trosglwyddo ac Archwilio | 1 wythnos |
| 16 | Cymeradwyo a Chwblhau | 1 wythnos |

Er ein bod yn ymdrech i geisio cyfuno rhai elfennau o fewn y broses mae'r tabl yn amlinellu'r her o gwblhau cynlluniau mawr o fewn amserlen y  mesurydd perfformiad  ac yn esbonio paham fod rhai cynlluniau yn mynd tu hwnt i'r amserlen. Os bydd gwaith yn syml e.e. addasiadau i ystafell ymolchi gellir hepgor rhai o'r camau a chwblhau'r  gwaith yn gyflymach ond ni ellir gwneud hynny gyda rhai achosion. Ar hyn o bryd rydym yn llwyddo i gwblhau dros hanner y gwaith o fewn 175 diwrnod.

Dangosodd dadansoddiad  o achosion diweddar fod nifer o ffactorau gwahanol yn gallu cyfrannu  at oedi ond  yn ddiddorol  mai'r rheswm mwyaf cyffredin oedd anhawster wrth dderbyn gwybodaeth a chymeradwyaeth ymgeiswyr. Yn sgil hyn rydym bellach yn nodi'r bod yn rhaid  dychwelyd gwybodaeth o fewn 2 fis. Os na fydd gwybodaeth yn dod i law gallwn ohirio cais ac yna ei ail agor unwaith y bydd gwybodaeth wedi  ei dderbyn..


**4.0 Mesurau  Perfformiad Adrannol**

Mae'r Adran Tai yn adrodd yn flynyddol ar nifer o fesuryddion perfformiad ac mae perfformiad Gwynedd wedi gwella dros y 3 blynedd diwethaf. Serch hyn  rhaid bod yn ofalus wrth ddadansoddiad gan y bydd natur a chymhlethdod y gwaith unigol yn effeithio  ar  berfformiad . Er enghraifft bydd yn bosibl gosod cadair risiau o fewn amserlen o lai na 3 mis ond byddai amserlen fel hon yn amhosibl ar gyfer estyniad fydd yn debygol o gymered o leiaf 12 mis .  Mae'r Cynulliad wedi cydnabod yn ddiweddar yr angen i ail ymweld â'r mesurydd i geisio sicrhau rhagor o gysondeb a bod  ystyriaeth i natur a chost y gwaith sy'n cael ei gwblhau




| | Uchelgais Gwynedd | | Perfformiad 2012-13 |
|---|---|---|---|
| **PSR/002*** Nifer cyfartalog y diwrnodau calendr a wnaeth gymryd i ddarparu grant cyfleusterau i'r anabl. | 280 diwrnod | Mae'r Adran yn arolygu perfformiad yn chwarterol ond mae yn gallu bod yn gamarweiniol dibynnau ar berfformiad chwarterol gan fod nifer o achosion grant yn cynyddu fel ai'r flwyddyn ariannol heibio, gan ddylanwadu yn gadarnhaol ar y cyfartaledd. Hefyd gall un achos hir dymor gael effeithio negyddol ar yr uchelgais . | 298 days |
| **GTLLEOL2ADDASIAD13-14** Canran o addasiadau (DFGs) sy'n cael eu cwblhau o fewn 175 diwrnod i ddyddiad yr asesiad cychwynnol | Angen gosod ffigwr<br><br>52.5% hyd yma | Mae'r Adran wedi gosod mesurydd lleol i geisio adnabod % o'r gwaith sydd yn cael ei gwblhau o fewn 175 diwrnod. Mae'r mesur yn cyfateb i'r perfformiad gorau yng Nghymru. Gwelwn fod dros 52.5% tu fewn i'r targed 21 allan o 40 achos. | Newydd |
| **GTLLEOL3** Canran y defnyddwyr | 90% | Ar ôl cwblhau'r gwaith addasu rydym yn dosbarthu holiadur i | 96% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| sy'n nodi eu bod yn fodlon neu yn fodlon iawn gyda'r gwasanaeth gafodd ei ddarparu ar ddiwedd y broses Grant Cyfleusterau i'r Anabl | | ddefnyddwyr er mwyn adnabod ei bodlonrwydd gyda'r gwaith a meysydd y gellid gwella. | |
| **PSR/006 (SID)** Nifer cyfartalog y diwrnodau calendr a gymerwyd i ddarparu gwaith addasu cost isel mewn anheddau preifat lle nad yw'r broses Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn cael ei ddefnyddio | 15 diwrnod | Gwynedd yn defnyddio addasiadau o dan £350 fel sail i fesur mae'n dangos yn dangos nifer cyfartalog isel o ddyddiau. | 8 diwrnod |
| **PSR/009a (SID)** Nifer cyfartalog y diwrnodau calendr a gymerwyd i roi Grant Cyfleusterau i'r Anabl ar gyfer plant a phobl ifanc | 380 diwrnod | Mae'r mesurydd yn gallu amrywio yn sylweddol gan ei fod fel arfer yn ddibynnol ar nifer fach o achosion rhai yn hir dymor a chymhleth. Rhaid arolygu'r mesurydd yma yn agos i weld effaith unrhyw gynlluniau unigol yn effeithio ar y lefel cyfartalog rhai yn achosion hanesyddol. | |




| | 2007 | 2008 | 2009 | 2010 | 2011 | 2012 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymru | 453.34 | 374.65 | 349.04 | 318.54 | 326.00 | 271.00 |
| Gwynedd | 364.00 | 441.83 | 359.00 | 291.11 | 283.00 | 298.00 |
| Teulu | 503.00 | 418.04 | 336.28 | 335.76 | 306.70 | 277.00 |
| Targed | | | | 410.00 | 310 | 283 |

## Atodiad 1 – CANLLAWIAU AR GYFER Y GRANT ADDASIADAU

**Grant Addasiadau i'r Anabl?**
Mae Grant Addasiadau i'r Anabl ar gael i gynorthwyo pobl anabl gwblhau addasiadau angenrheidiol i'w cartrefi, er mwyn eu galluogi i barhau yn annibynnol a diogel. Yr amcan yw hwyluso mynediad rhesymol i'r cartrefi, ac i'r prif ystafelloedd o fewn y cartref, sef ystafell fyw ac ystafell wely, mynediad i ystafell addas i ymolchi, gyda darpariaeth baddon neu gawod, a hefyd mynediad i gyfleusterau toiled a basn golchi dwylo addas.

**Asesu Cais**
Cyn cymeradwyo unrhyw gais am grant bydd yn rhaid derbyn asesiad ffurfiol gan Therapydd Galwedigaethol (sy'n gyflogedig gan yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol). Bydd y Therapydd Galwedigaethol yn:

- Cadarnhau bod yr addasiadau arfaethedig yn **"hanfodol"** ac **"addas**" ar gyfer y person anabl.
- Cwblhau asesiad o'r person anabl a'i gartref, a rhoi barn broffesiynol ynglŷn â'r addasiadau angenrheidiol fydd ei hangen i gwrdd ag anghenion arbennig y person.

Ar ôl ei gwblhau bydd yr asesiad yn cael ei drosglwyddo i Swyddog Grant Tai fydd yn gyfrifol am ystyried y ffordd orau i wireddu'r addasiadau o fewn yr eiddo, ac i ddyfarnu os yw'r addasiadau arfaethedig yn **"rhesymol**" ac **"ymarferol**" i'w cyflawni o fewn yr eiddo.

Ar rai achlysuron ni fydd yn bosibl cyflawni'r cwbl o'r addasiadau fyddai'n angenrheidiol i ateb holl anghenion y person anabl oherwydd yr ystyriaethau uchod, ac mewn achosion o'r fath mae gan y Swyddogion Grantiau Tai'r hawl i wrthod y cais.

Os bydd Swyddogion Grantiau Tai yn gwneud penderfyniad i gymeradwyo cais am addasiadau, yna mae'n ddyletswydd arnynt i sicrhau eu bod yn cyfarfod yr anghenion a aseswyd fel rhai angenrheidiol gan y Therapydd Galwedigaethol.

Yn ystod yr asesiad bydd y Therapydd Galwedigaethol yn ystyried ymarferoldeb a defnyddioldeb tymor hir unrhyw addasiad ac yn rhoi ystyriaeth resymol i anghenion person anabl i'r dyfodol. Bydd hyn yn arbennig o berthnasol mewn achosion lle mae'r person anabl yn dioddef o gyflwr dirywiol, a phan fod posibilrwydd y bydd raid darparu addasiadau ychwanegol yn y dyfodol. Byddent hefyd yn ystyried a oes ffordd arall o ddiwallu'r angen.

**Pwy fydd yn asesu a phenderfynu ar y cais?**
Bydd yr asesiad angen a'r cyfeiriad ffurfiol am addasiadau yn cael ei gwblhau gan Therapydd Galwedigaethol sy'n gyflogedig gan Gyngor Gwynedd. Os bydd asesiad a chyfeiriad am addasiadau wedi ei gyflwyno gan berson cymwys sydd ddim yn gyflogedig gan Gyngor Gwynedd er enghraifft rhywun sy'n gyflogedig gan

yr Awdurdod Iechyd, bydd yn angenrheidiol fod Therapydd Galwedigaethol Cyngor Gwynedd yn ardystio fod yr addasiadau a awgrymir yn "**hanfodol"** ac yn **addas** yn unol â deddfwriaeth.

**Amserlen i gwblhau gwaith**
Gall fod yn anodd rhoi amserlen ar gyfer cwblhau gwaith yn enwedig ar gychwyn proses cyflwyno cais gan fod nifer o wahanol ystyriaethau all ddylanwadu. Bydd amserlen yn amrywio yn ôl natur, lleoliad, maint a chymhlethdod yr addasiadau angenrheidiol. Amcanir i gwblhau pob math o addasiadau gan gynnwys gwaith sylweddol o fewn 37 i 43 wythnos o ddyddiad asesiad ffurfiol y Therapydd Galwedigaethol, os nad oes rhwystrau annisgwyl yn codi neu fod angen addasiadau sylweddol. Mae'n bosibl i waith cymharol syml ei natur fel gosod lifft grisiau gael ei gwblhau mewn cyfnod llawer byrrach, oddeutu 8 i 12 wythnos.

**Oes angen cwblhau prawf modd cyn cychwyn gwaith?**
Bydd pob cais grant (sector preifat), ac eithrio ceisiadau am addasiadau ar gyfer plant, yn ddibynnol ar gwblhau prawf modd statudol fydd yn ystyried gallu'r ymgeiswyr i gyfrannu drwy ystyried eu sefyllfa ariannol bresennol.

Bydd rhaid i ymgeiswyr ddatgelu manylion pob incwm a budd dal, ynghyd a manylion unrhyw gynilion, buddsoddiadau ac asedau.

Cwblheir y prawf modd ar gychwyn y broses ymgeisio er mwyn penderfynu os oes angen cyfraniad tuag at gost y gwaith o addasu. Disgwylir i ymgeiswyr hefyd gyflwyno dogfennau yn cadarnhau perchnogaeth a hawl i addasu eiddo

**Safonau Gweithredol**
Dim ond gwaith sy'n cael ei ystyried yn gymwys o dan ddeddfwriaeth addasiadau ar gyfer yr anabl all gael ei gymeradwyo. Mae rheidrwydd ar yr awdurdod i wahaniaethu rhwng yr hyn sy'n **"ddymunol**" neu'n "**ddyhead"** gan ymgeiswyr, a'r hyn sydd wirioneddol **angenrheidiol** yn dilyn asesiad proffesiynol ac sy'n **rhesymol** i'w ariannu drwy gyfrwng cyllid cyhoeddus.

Ni all y Cyngor awdurdodi gwaith sydd ddim yn gysylltiedig â'r addasiad neu waith sydd uwchlaw'r hyn sydd ei angen.

Gall ymgeiswyr wneud cais i'r Cyngor i gwblhau gwaith ychwanegol ar y ddealltwriaeth y byddent yn barod i drefnu a thalu am y gwaith ychwanegol yma eu hunain.

Mae uchafswm y grant a delir am addasiadau angenrheidiol wedi ei osod mewn deddfwriaeth fel £36,000.

**Crynodeb Gyllidebol**

| Teitl | Disgrifiad | Cronfa |
|---|---|---:|
| **Grant Cyfleusterau i'r Anabl** | Grant hyd at £36,000 gyda rheidrwydd statudol i ddarparu addasiadau ar gyfer pobl anabl er mwyn caniatáu iddynt barhau i fyw yn annibynnol yn eu cartrefi. | £700,000 |
| **Benthyciad Dewisol Cyfleusterau i'r Anabl** | Cymorth ariannol ar gyfer addasiadau i'r anabl pan fod cyfanswm yr addasiad yn uwch na £36,000. Penderfynwyd yn ystod 2012 i gyflwyno hwn ar ffurf benthyciad di log yn hytrach na grant gan olygu y byddai angen ad-dalu'r swm os bydd eiddo yn cael ei werthu.<br><br>Defnyddir fel cyfraniad at Grant Cyfleusterau i gwblhau'r addasiad angenrheidiol yn arbennig pan fo anghenion cymhleth neu hir dymor. | £200,000 |
| **Cynllun Man Addasiadau (Cynllun Cymorth yn y Cartref)** | Grant dewisol i ddarparu man addasiadau bach sy'n costio hyd at £300 e.e. gosod canllaw. Mae'r cynllun sy'n cael ei redeg gan Ofal a Thrwsio yn cwblhau man waith yn gyflym (o fewn diwrnodau). | £100,000 |
| **Cronfa Addasiadau Cartrefi Cymunedol Gwynedd** | Cronfa wedi ei dynodi yn y Cytundeb Trosglwyddo ar sail gwariant blaenorol y Cyngor er mwyn darparu addasiadau ar gyfer pobl anabl. | £600,000 |
| **Grant Addasiad Ffisegol** | Cronfa ganolog ar gyfer Cymdeithasau Tai i ymgymryd ag addasiadau sylweddol ar gyfer pobl anabl. | £8.5m ar draws Cymru |